

**Ymchwil i le darllen ymysg arferion hamdden siaradwyr Cymraeg**

**15–25 oed**

**Nia Thomas**

**Traethawd a gyflwynir am radd MPhil ysgoloriaeth KESS**

**mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru**

**Prifysgol Aberystwyth 2014**



## **Crynodeb**

Mae'r traethawd hwn yn ceisio darganfod pa mor bwysig yw darllen fel rhan o arferion hamdden pobl ifanc rhwng 15 a 25 oed, o gymharu â gweithgareddau hamdden eraill.

Ceisir canfod i ba raddau y mae'r chwyldro digidol wedi newid arferion darllen pobl ifanc yn yr ystod oedran hwn. Pwysigrwydd hynny yw mesur hyd y gellir pa effaith y mae hynny'n debyg o'i chael ar y math o lyfrau a gyhoeddir yn y Gymraeg, pa fath o gyfryngau newyddion y dylid canolbwyntio arnynt yn y dyfodol, a chanfod y cydbwysedd cywir rhwng cyfryngau print a digidol.

Ystyrir y math o ddeunydd a ddarllenir, yn ddeunydd print ac electronig, ac ystyrir hefyd faint o ddeunydd Cymraeg a faint o ddeunydd Saesneg a ddarllenir mewn amrywiol gyfryngau. Bydd yr ymchwil hefyd yn cynnwys darganfod patrymau darllen pobl ifanc ar y We drwy holi am y math o safleoedd a ddefnyddir ganddynt yn rheolaidd, megis safleoedd newyddion a rhwydweithiau cymdeithasol a blogiau.

Mae'r ymatebwyr wedi cael eu rhannu yn dri grŵp oedran er mwyn gallu cymharu y gwahaniaethau rhyngddynt. Defnyddiwyd holiadur er mwyn cael gwybodaeth gyffredinol am arferion darllen pobl ifanc rhwng 15 a 25 oed yn brintiedig ac yn electronig. Yna cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda'r tri grŵp oedran. Roedd hi'n bosibl cael trafodaeth bellach am y pynciau wyneb yn wyneb. Mae ymatebion i'r holiadur a'r grwpiau ffocws yn cael eu dadansoddi mewn dwy bennod ar wahân.

Mae'r prif ganfyddiadau yn defnyddio canlyniadau'r ymchwil i argymhell beth y dylai Cyngor Llyfrau Cymru, cyhoeddwyr llyfrau Cymraeg a llyfrwerthwyr fod yn ei wneud i apelio at Gymry Cymraeg ifainc.

## DATGANIAD

**Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.**

**Llofnod ..... (ymgeisydd)**

**Dyddiad .....**

## GOSODIAD 1

**Canlyniad fy ymchwiliadau i yw'r gwaith hwn, oni nodir yn wahanol. Lle mae gwasanaethau cywiro\* wedi eu defnyddio, nodir maint a natur y cywiriad yn eglur mewn troednodyn. Cydnabyddir ffynonellau eraill mewn troednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau eglur. Atodir llyfryddiaeth.**

**Llofnod ..... (ymgeisydd)**

**Dyddiad .....**

**[\* Mae hyn yn cyfeirio at i ba raddau y cywiriwyd y testun gan bobol eraill]**

## GOSODIAD 2

**Yr wyf, drwy hyn, yn rhoi caniatâd i'm gwaith, os yw'n cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.**

**Llofnod ..... (ymgeisydd)**

**Dyddiad .....**

## **Diolchiadau**

Diolch i'r athrawon yn y gwahanol ysgolion y cysylltais â hwy, ac i bawb a lenwodd yr holiadur ac a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws. Diolch hefyd i Mr Elwyn Jones, Mr Richard Owen a Mr Arwel Jones o Gyngor Llyfrau Cymru, a Mr Endaf Griffiths o Gwmni Wavehill.

## **Cynnwys**

**1. Cyflwyniad**

**2. Rhesymeg a Methodoleg yr Ymchwil**

**3. Y Cyd-destun Masnachol**

**4. Y Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata: Astudiaeth Achos**

**5. Canlyniadau'r Holiadur**

**6. Y Grwpiau Ffocws**

**7. Prif Ganfyddiadau**

**8. Atodiad**

**9. Llyfryddiaeth**

## 1. Cyflwyniad

Y prif reswm dros lunio'r traethawd hwn oedd er mwyn cynorthwyo Cyngor Llyfrau Cymru i ganfod patrymau darllen fel rhan o arferion amser hamdden Cymry ifainc o fewn yr oedran penodedig, sef rhwng 15 a 25 oed. Ceisiwyd canfod i ba raddau y mae'r chwyldro digidol wedi newid arferion darllen pobl ifanc yn yr ystod oedran hon. Yn ei dro, gallai'r canfyddiadau, ar sail nifer o atebion i gwestiynau penodol, fod o gymorth i'r Cyngor Llyfrau benderfynu pa effaith y gall y newidiadau yn sgil y chwyldro digidol ei chael ar y math o ddeunydd a gyhoeddir yn y Gymraeg, boed yn llyfrau print neu'n llyfrau electronig. Rhywbeth arall y gobeithid y byddai'r ymchwil hon yn ei ganfod yw pa fath o gyfryngau newyddion y dylid canolbwyntio arnynt yn y dyfodol, a gweld a oes modd cael y cydbwysedd cywir rhwng y cyfryngau print a'r rhai digidol.

Ni waeth beth yw'r cyfrwng, ai print ai digidol, yr un yw'r weithred o ddarllen y testun, wrth reswm. Ond i gorff fel Cyngor Llyfrau Cymru sy'n gwario arian cyhoeddus ar gefnogi'r diwydiant cyhoeddi llyfrau, mae'n bwysig gwybod pa fath o gyhoeddiadau i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol wrth geisio cynnal y ddarpariaeth a denu mwy o ddarllenwyr. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun y cwtogi ar gyllidebau ariannol pan fydd, o bosibl, angen blaenoriaethu yn y dyfodol pa fath o gyhoeddiadau i'w noddi. Mae'n wybyddus, er enghraifft, y bydd gostyngiad o £250,000 dros ddwy flynedd yn yr arian a dderbynia'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru, a £100,000 ohono yn ystod y flwyddyn ariannol 2014-2015, sy'n golygu gostyngiad uniongyrchol yn y grant cyhoeddi llyfrau Cymraeg a Saesneg.<sup>1</sup>

---

<sup>1</sup> Gweler <<http://www.golwg360.com/newyddion/arian-a-busnes/160749-cyngor-llyfrau-cymru-toriad-ychwanegol-o-100000>> (cyrchwyd ym mis Medi 2014).

Roedd yr ymchwil hefyd yn ystyried y math o ddeunydd darllen sy'n apelio at bobl ifanc yn yr ystod oedran hon, boed yn ddeunydd print neu electronig, ac ym mha iaith. Teimlid y byddai'n fuddiol canfod faint o ddeunydd Cymraeg a faint o ddeunydd Saesneg a ddarllenir gan Gymry Cymraeg mewn amrywiol gyfryngau. Un peth amlwg i ymholi ynglŷn ag ef oedd patrymau darllen pobl ifanc ar y We. Pa fath o safleoedd a ddefnyddir ganddynt yn rheolaidd, megis safleoedd newyddion a rhwydweithiau cymdeithasol a blogiau.

Maes arall o ddiddordeb i'r ymchwil hon oedd pa gylchgronau print neu electronig a ddarllenir gan bobl ifanc yn yr ystod oedran. Gan fod y Cyngor yn noddi cylchgrawn ar gyfer Cymry sy'n ymddiddori mewn cerddoriaeth gyfoes, sef *Y Selar*, cylchgrawn a chanddo wefan i hybu'r nosweithiau a drefnir ganddo, yn enwedig y Noson Wobrwyo flynyddol, tybiwyd y byddai'n fuddiol cynnal astudiaeth achos ar y cylchgrawn hwn er mwyn gweld pa mor effeithiol ydyw fel cyfrwng sy'n apelio at bobl ifanc.

## 2. Rhesymeg a Methodoleg yr Ymchwil

Aethpwyd ati yn y lle cyntaf i ddarllen yr adroddiadau eraill a gomisiynwyd gan y Cyngor ac a gyhoeddwyd ar ei wefan er mwyn gweld pa waith cyfatebol a wnaed yn y gorffennol. Ymhlith yr adroddiadau a oedd yn berthnasol i'r ymchwil hon fel cefndir a chyd-destun yr oedd 'Prynu a Darllen Llyfrau Cymraeg', Dr Mike Woods, Hydref 2007, yr adroddiad ar 'E-gyhoeddi yn y Gymraeg' gan Ganolfan Bedwyr, Bangor, Hydref 2011, a 'Prynu a Darllen Llyfrau Cymraeg, Adroddiad Omnibws Siaradwyr Cymraeg 2012' gan Gwmni Beaufort, Gorffennaf 2013. Gan fod y dechnoleg yn datblygu mor gyflym, a'r teclynnau diweddaraf yn newid ac yn addasu, mae perygl i ymchwil fel hon ddyddio'n gyflym.

Gan nad oes adroddiad penodol cyn hyn wedi'i gomisiynu ar yr ystod oedran a oedd dan sylw yn y traethawd ymchwil hwn, nac ychwaith ymchwil sy'n ystyried yr un math o gwestiynau ag a ofynnir gan yr ymchwil hon, gallwn ddweud fod yma ddeunydd unigryw a gwerthfawr sy'n dangos y tueddiadau presennol yn ddigon clir. Ond mae'n bosibl y bydd canlyniadau'r ymchwil hon, a'r casgliadau a wnaed ar eu sail, yn dyddio'n gyflym ac y bydd angen profi'r dŵr a chasglu gwybodaeth debyg eto yn y dyfodol agos.

Penderfynwyd cynnal yr ymchwil drwy ddefnyddio holiadur gan gynhyrchu fersiwn printiedig ac electronig er mwyn hwyluso'r gwaith o gasglu ymatebion mor hwylus a didrafferth â phosibl o fewn yr amserlen osodedig. Mae llunio holiadur yn ffordd hawdd a chyfleus o gasglu llawer o wybodaeth gan bobl cyn belled na fydd ond yn cymryd ychydig o ymdrech gan yr ymatebwyr i'w lenwi. Penderfynwyd llunio



holiadur cynhwysfawr o 27 cwestiwn ar 9 tudalen A4 y gellid yn rhesymol ei lenwi rhwng 5 a 10 munud o amser.<sup>2</sup>

Argymhellwyd gan swyddogion y Cyngor Llyfrau y dylid trafod drafft o'r holiadur gydag Endaf Griffiths o gwmni ymchwil marchnad Wavehill a leolir yn Aberaeron. Mae'r cwmni wedi creu adroddiadau ymchwil marchnad i'r Cyngor Llyfrau yn y gorffennol, ac mae gan Endaf Griffiths lawer o brofiad yn y maes. Ar ôl dangos drafft iddo, cafwyd cyngor i osod cwestiynau clir ac eglur er mwyn osgoi amwysedd ac osgoi sefyllfa lle gallai ymatebwr ddehongli cwestiwn mewn sawl ffordd.

Yn aml roedd angen rhoi cyfyngiad amser, felly roedd 'Ydych chi'n defnyddio Twitter yn aml?' yn cael ei newid i 'Ydych chi'n defnyddio Twitter bob mis?'. Golygai hyn na fyddai unrhyw ddryswch ynghylch beth oedd yr union ddiffiniad o 'aml'. Er hyn, cadwyd rhai cwestiynau eang fel cwestiwn rhif 16, 'Beth yw eich barn ar y deunydd printiedig yma yn Gymraeg? Sut gellir ei wella?', oherwydd roedd cael ambell ateb cyffredinol o ddiddordeb, ac roedd yn anodd meddwl am ffordd o wneud y cwestiwn yn llai eang heb newid y cwestiwn yn gyfan gwbl. Defnyddiwyd hefyd y ddyfais o osod ail gwestiwn cysylltiedig, er enghraifft 17 (a) ac 17 (b), sy'n rhoi cyfle i ganfod mwy am arferion darllen e-lyfrau a ble y ceir gafael arnynt. Yn achos ambell gwestiwn, gofynnwyd trydydd cwestiwn cysylltiedig, er enghraifft 19 (a), (b) ac (c). Roeddwn am ganfod mwy am gyfrwng ieithyddol y gwefannau a ddefnyddid bob mis ac am yr union blatfform, sef yn achos Golwg 360, ar liniadur neu ap ar ffôn symudol neu dabled.

Rhannwyd yr holiadur yn dair adran. Roedd Adran A yn gofyn am fanylion personol dienw, gan ofyn yn benodol sut iaith oedd y Gymraeg iddynt, ai iaith gyntaf,

---

<sup>2</sup> Gweler copi o'r holiadur terfynol yn yr Atodiad.

ail iaith ynteu a oeddynt yn ddysgwyr. Roedd hon yn wybodaeth bwysig er mwyn medru cymharu patrymau darllen cynulleidfa amrywiol o ddarllenwyr Cymraeg. Roedd cael gwybod yr oedran yn hanfodol hefyd er mwyn medru creu grwpiau penodol. Roedd gwybod ai gwryw neu fenyw oedd yr ymatebwr yn bwysig er mwyn gweld a oes math arbennig o lyfr yn apelio mwy at ddynion nag at ferched, a yw chwaeth yn amrywio yn ôl rhyw, ac a yw hynny'n effeithio ar batrymau prynu llyfrau a'u darllen.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu lleoliad daearyddol, gan fod ystyried dosbarthiad daearyddol yn bwysig i wybod a oes gwahaniaethau rhanbarthol mewn patrymau prynu a chael mynediad at lyfrau Cymraeg. Mae mwy o siopau ar gael mewn rhai ardaloedd na'i gilydd. A fyddai rhywun heb fynediad rhwydd at siop llyfrau Cymraeg yn fwy tebygol o brynu e-lyfrau er enghraifft? Hefyd, byddai'n fuddiol gweld a fyddai gwahaniaethau arwyddocaol mewn arferion darllen llyfrau Cymraeg ar sail natur Cymreigrwydd y gwahanol ardaloedd.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi gwybodaeth am yr hyn yr oeddent yn ei wneud, ai astudio mewn ysgol a choleg a phrifysgol ynteu gweithio, neu ynteu a oeddent yn ddi-waith. Mae'n bosib y byddai gan rywun sydd mewn gwaith fwy o incwm sbâr i'w wario ar lyfrau a chylchgronau na rhywun di-waith. Byddai disgybl mewn ysgol a choleg yn fwy tebygol o ddarllen mwy o lyfrau o fath penodol am fod rheidrwydd arnynt i wneud hynny mewn perthynas â'u gwaith academiaidd. Gofynnwyd cwestiwn atodol i ddisgyblion a myfyrwyr, sef allent nodi eu pynciau, oherwydd gallai natur y pwnc— gwyddoniaeth neu hanes, er enghraifft —olygu fod ganddynt fwy o ddiddordeb mewn llyfrau ffeithiol yn eu hamser hamdden.

Dewiswyd rhannu'r cwestiynau am ddeunydd printiedig a deunydd electronig a'u gosod mewn dwy adran ar wahân, sef B a C. Mae'r geiriau 'printiedig' ac

‘electronig’ yn cael eu diffinio o fewn yr holiadur er mwyn gwneud yn glir beth yw’r gwahaniaethau rhwng y ddau a pha mor eang yw’r diffiniad ohonynt. Mae printiedig wedi cael ei ddiffinio fel ‘ unrhyw beth sydd ar gael ar bapur (e.e. llyfrau, cylchgronau, papurau newydd)’ ac mae electronig wedi cael ei ddiffinio fel ‘ unrhyw beth sydd ddim yn brintiedig (e.e. gwefannau, e-lyfrau, aps)’. Gwnaethpwyd hyn er mwyn bod yn ddealladwy i bobl ifanc ac osgoi amwysedd a defnyddio iaith eglur heb fod yn orffurfiol.

Ar ôl cael sêl bendith swyddogion y Cyngor Llyfrau ac Endaf Griffiths i’r fersiwn drafft terfynol ar bapur, penderfynwyd cynnal arbrawf drwy anfon yr holiadur at rai o gydnabod a ffrindiau awdur y traethawd er mwyn cael eu barn arno. Llanwodd pump o bobl yr holiadur fel prawf er mwyn gweld a oedd yn ddealladwy yn fwy na dim. Wrth ymgynghori fel hyn cyn anfon y drafft terfynol allan, llwyddwyd i weld bod angen nodi’n glir os oedd disgwyl i’r atebwyr dicio mwy nag un blwch ai peidio. Roedd hyn yn werthfawr oherwydd roedd manylion syml fel hyn yn gwneud yr holiadur yn llawer cliriach i’r ymatebwyr ac yn llawer mwy proffesiynol. Roedd osgoi dryswch ym meddwl yr ymatebwyr yn hollbwysig.

Lluniwyd holiadur ar bapur a phenderfynwyd ei roi hefyd ar wefan Google Survey fel bod dewis gan bobl o lenwi’r fersiwn print ac electronig. Rhannwyd Cymru yn bum rhanbarth gennyf at bwrpas casglu tystiolaeth, sef Gogledd-orllewin, Gogledd-ddwyrain, y Canolbarth, De-orllewin, a De-ddwyrain. Y gobaith oedd gallu anfon yr holiaduron at ddwy ysgol ym mhob un rhanbarth a llwyddwyd i wneud hynny. Cysylltwyd â thua 30 o ysgolion a cholegau i gyd. Cytunodd 10 o ysgolion a cholegau dderbyn yr holiaduron. Anfonwyd holiaduron at ddisgyblion 15 i 18 oed yn yr ysgolion canlynol:

Ysgol Dyffryn Nantlle, Pen-y-groes;  
Ysgol Y Berwyn, y Bala;  
Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam;  
Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun;  
Ysgol Penweddig, Aberystwyth;  
Ysgol Bro Myrddin, Caerfyrddin;  
Ysgol Cwm Gwendraeth, Cefneithin  
Ysgol Gwynllyw, Pontypŵl;  
Ysgol Cwm Rhymni, Y Coed Duon;  
Coleg Ceredigion Aberteifi.

Dewiswyd hefyd anfon yr holiadur at bobl sydd yn byw y tu allan i Gymru. Roedd yr holiadur ar Google Survey yn hwyluso hyn. Roedd y rhan fwyaf yn fyfyrwyr mewn prifysgolion yn Lloegr a'r Alban ond roedd nifer fach yn gweithio y tu allan i Gymru hefyd. Os yw Cymry Cymraeg yn dewis treulio saith mis o'r flwyddyn mewn prifysgol y tu allan i Gymru, nid yw hynny'n golygu eu bod wedi colli pob cysylltiad â'r diwylliant Cymraeg. Yr oedd eu cynnwys nhw hefyd yn dangos sut maent yn cadw mewn cysylltiad â'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru, trwy'r newyddion a'r cyfryngau cymdeithasol, ac yn arbennig felly â'r hyn sy'n digwydd o fewn y fasnach lyfrau Gymraeg. Roedd hi'n hawdd cysylltu â chymdeithasau Cymraeg prifysgolion dros y We, yn enwedig ar Facebook.

## **Tri Grŵp Oedran**

At ddiben dadansoddi'r ymatebion a'r dystiolaeth, penderfynwyd rhannu'r ystod oedran cyfan yn dri grŵp er mwyn adlewyrchu eu statws, felly wrth adrodd am y canlyniadau isod rhoir y canlyniadau a'r canrannau ar gyfer pawb yn y lle cyntaf, sef yr holl ystod oedran rhwng 15 a 25 oed, ac yna yn dilyn fesul grŵp fel a ganlyn:

Grŵp 1, 15-18 oed-oedran ysgol uwchradd;

Grŵp 2, 19-21 oed-oedran prifysgol a choleg;

Grŵp 3, 22-25 oed-oedran byd gwaith.

Roedd hyn yn ein galluogi i weld pa wahaniaethau a oedd rhyngddynt ac a oedd patrymau'n newid wrth i amgylchiadau'r bobl ifanc newid.

## **Sefydlu Grwpiau Ffocws**

Penderfynwyd bod ffurfio grwpiau ffocws yn mynd i fod yn rhan hanfodol o'r dull o gasglu dystiolaeth, am ei bod yn ffordd effeithiol o ddeall barn pobl ifanc yn well nag y byddai holiadur yn gallu ei wneud. Dewiswyd cynnwys grwpiau ffocws er mwyn gallu holi pobl wyneb yn wyneb ynghylch rhai o'r atebion a gafwyd yn yr holiadur a rhoi cyfle i bobl ymhelaethu.

Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda deuddeg o ddisgyblion ysgol Gymraeg yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Roedd 10 ohonynt yn 15 oed a 2 ohonynt yn 17 oed. Roedd yno wyth bachgen a phedair merch. Roedden nhw ymhlith y sampl o 20 o holiaduron a ddaeth o Ysgol Brynhyfryd. Defnyddiwyd yr holiaduron hyn er mwyn llunio'r cwestiynau a ofynnwyd yn y grŵp ffocws. Roedd hyn yn werthfawr er mwyn gallu ffocysu'r sgwrs ar bynciau roedden nhw'n eu deall ac yn ymwybodol ohonynt.

Cynhaliwyd ail grŵp ffocws gyda saith o fyfyrwyr o Brifysgol Caerdydd. Roedden nhw i gyd yn ferched rhwng 19 a 21 oed. Roedden nhw'n astudio amrywiaeth o bynciau ac nid oedd un ohonynt yn astudio Cymraeg na Saesneg. Anfonwyd holiaduron yn benodol atyn nhw, felly roedd hyn yn helpu i ganolbwyntio'r sgwrs yn union ar y pynciau roedden nhw wedi eu trafod yn yr holiaduron.

Cynhaliwyd y trydydd grŵp ffocws gyda phump o bobl yn Aberystwyth. Roedd yno dri bachgen a dwy ferch. Roedd tri ohonynt yn 22 oed a dau yn 23 oed. Roedd tri ohonynt yn fyfyrwyr uwchraddedig a dau ohonynt mewn swydd lawn amser. Roedd y pump ohonynt wedi llenwi'r holiadur. Nid oedd hi'n glir pa holiaduron roedden nhw wedi eu llenwi felly defnyddiwyd atebion Grŵp 3 i gyd er mwyn llunio cwestiynau ar gyfer y grŵp ffocws yma.

### 3. Y Cyd-destun Masnachol

Gwelwyd bod yr ymchwil hon yn hynod amserol oherwydd y drafodaeth gyfredol ynghylch pa mor hyfyw yw'r diwydiant cyhoeddi traddodiadol yn sgil poblogrwydd cynyddol cyhoeddi electronig. Yn ystod haf 2014 cynhaliwyd trafodaeth ar y thema 'Cyhoeddi Llai, Marchnata Mwy' lle'r oedd cynrychiolwyr o'r diwydiant cyhoeddi Cymraeg yn bresennol. Mynegodd Eirian James, perchennog siop lyfrau Palas Print yng Nghaernarfon a Bangor, bod angen 'cefnogi siopau annibynnol cyffredinol trwy brynu llai ar y We' ac 'os ydy'r strydoedd mawr am barhau, mae'n rhaid eu cefnogi.'<sup>3</sup> Mae'r gystadleuaeth rhwng siopau ar y strydoedd mawr a'r siopau ar-lein yn amlwg iawn yn y byd cyhoeddi Saesneg, ond hyd yma nid yw Amazon wedi cael yr un effaith ar y farchnad gyhoeddi Gymraeg. Er hynny, fe all gael effaith yn y dyfodol os yw pobl yn dod i arfer â phrynu nwyddau eraill ar-lein. Fe allai hynny yn ei dro wneud cwsmeriaid yn llai tebygol o fynd i'r strydoedd mawr o gwbl, lle maent fel rheol yn ymweld â'u siop llyfrau Cymraeg.

Ar ôl iddi gymryd rhan yn y drafodaeth yn haf 2014, siaradodd Eirian James gyda'r BBC gan ddweud bod angen trafodaeth ar draws y diwydiant am 'sut ydyn ni'n sicrhau bod pobl yn cael mynediad i e-lyfrau heb fod hynny yn brifo gweddill y diwydiant'.<sup>4</sup>

Mae hyn yn bendant yn angenrheidiol, gan fod yna nifer gynyddol o Gymry Cymraeg sydd wedi arfer darllen llyfrau Saesneg ar eu e-ddarllenydd, yn disgwyl yr un math o ddewis a safon yn y Gymraeg.

---

<sup>3</sup> Gweler <<http://www.golwg360.com/celfyddydau/eisteddfodau/156951-sefyllfa-r-diwydiant-llyfrau-yn-gnghymru-yn-ddifrifol>> (cyrchwyd ym mis Awst 2014).

<sup>4</sup> Gweler <<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/28678592>> (cyrchwyd ym mis Awst 2014).

Roedd yn rhaid i'r farchnad llyfrau Saesneg ymateb yn gyflym i'r her hon o bwysau oddi wrth arferion ac anghenion darllenwyr. Mae gan y diwydiant llyfrau Cymraeg gyfle i bwysu a mesur beth sydd wedi llwyddo ac wedi methu i'r diwydiant Saesneg. Mae'n rhaid i'r diwydiant llyfrau Cymraeg gadw golwg manwl ar ddisgwyliadau'r cwsmer pan fydd yn meddwl am y dyfodol, nid dim ond anghenion y llyfrwerthwyr.

Yn ôl data 'Bowker Books and Consumers UK' yn 2012, prynwyd 37.7% o'r llyfrau a werthwyd ym Mhrydain mewn siopau llyfrau sy'n bodoli ar-lein yn unig, ac roedd y ganran honno wedi cynyddu 7.3% er 2011.<sup>5</sup> Mae'r ganran hon yn syndod o uchel o ystyried bod llyfrau Saesneg ar gael i'w prynu mewn pob math o siopau ar y stryd fawr, yn wahanol i lyfrau Cymraeg nad ydynt ond yn cael eu gwerthu mewn siopau llyfrau Cymraeg neu mewn gwyliau Cymreig, lle mae'r cyfleoedd i'w gwerthu ac i'w prynu yn fwy cyfyng gan mai'r llefydd hynny yw'r unig lefydd lle mae'n bosibl eu prynu.

Yn ôl data 'Bowker Books and Consumers UK', yn ystod chwarter cyntaf 2013, roedd e-lyfrau yn 13% o'r farchnad o ran nifer.<sup>6</sup> Roedd rhai mathau penodol o lyfrau fel rhai trosedd a rhamant yn fwy na 20% o'r farchnad.

Dengys adroddiad 'Prynu a Darllen Llyfrau Cymraeg' Dr Mike Woods mai 'Merched rhwng 16 a 44 oed yw'r rhai mwyaf tebygol o orffen darllen llyfr Cymraeg unwaith yr wythnos neu'n amlach (8%), tra mai dynion rhwng 16 a 44 oed yw'r rhai mwyaf tebygol o beidio â darllen llyfr Cymraeg byth (66%)'<sup>7</sup>. Dengys hefyd bod 'nifer sylweddol uwch o ymatebwyr benywaidd rhwng 16 a 44 oed yn darllen mwy na

---

<sup>5</sup> Gweler <<http://www.digitalbookworld.com/2013/e-retailers-now-accounting-for-nearly-half-of-book-purchases-by-volume/>> (cyrchwyd ym mis Awst 2014).

<sup>6</sup> Gweler <<http://www.thebookseller.com/news/bowker-self-published-e-books-12-sales>> (cyrchwyd ym mis Awst 2014).

<sup>7</sup> 'Prynu a Darllen Llyfrau Cymraeg', Dr Mike Woods, Hydref 2007, <<http://www.cllc.org.uk/ni-us/cyhoeddiadau-publications/ymchwil-research>>, t. 1.



deg llyfr mewn blwyddyn nag ymatebwyr gwrywaidd yn yr un grŵp oedran (31% o'r rhai hynny'n darllen llyfrau Cymraeg o'i gymharu â 25%)'. Dengys hyn fod gwahaniaethau rhwng arferion darllen merched a bechgyn ifanc. Mae'n amlwg bod gwerth edrych ar y gwahaniaethau rhwng arferion darllen merched a bechgyn ar gyfer rhai agweddau, felly dewiswyd gwneud hyn ar gyfer rhai cwestiynau wrth ddadansoddi'r holiadur.

Wrth edrych ar arferion prynu llyfrau Cymraeg yn 2007, dengys adroddiad Mike Woods bod '... llawer iawn mwy o ferched na dynion yn prynu llyfrau Cymraeg (32% i 23%). Yr ymatebwyr rhwng 25 a 34 oed oedd y rhai mwyaf tebygol o brynu llyfrau Cymraeg (41%), ac yna'r rhai hynny rhwng 35 a 44 oed (36%), a'r rhai hynny rhwng 45 a 54 oed (32%). Dim ond 17% o'r ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed a brynodd llyfrau Cymraeg.'<sup>8</sup> Dengys yr ymchwil honno bod pobl ifanc yn llai tebygol o brynu cymaint o lyfrau â phobl hŷn. Un rheswm posib am hyn yw bod pobl hŷn yn fwy tebygol o brynu llyfrau i bobl eraill, fel i blant sydd yn methu prynu llyfrau iddynt eu hunain. Llyfrau plant oedd yr ail ddewis mwyaf poblogaidd ar ôl nofelau i ymatebwyr adroddiad Woods yn 2007. Byddai hyn efallai yn rhoi argraff ffug fod llawer yn fwy o bobl yr oedrannau hyn yn darllen llyfrau i oedolion.

Mae 'Adroddiad Omnibws Siaradwyr Cymraeg 2012' Cwmni Beaufort yn adlewyrchu llawer o ganfyddiadau Woods am arferion darllen pobl ifanc gyda phobl '(16 i 24) yn lleiaf tebygol o fod yn darllen llyfrau Cymraeg o gwbl (a dim ond 47% yn gwneud hynny) ... Fodd bynnag, oedolion 25 i 39 oed oedd y darllenwyr mwyaf cyson, gyda mwy na chwarter (27%) yn darllen llyfr Cymraeg o leiaf unwaith y mis (mwy nag unrhyw gategori oedran arall)'.<sup>9</sup>

---

<sup>8</sup> 'Prynu a Darllen Llyfrau Cymraeg', Dr Mike Woods, Hydref 2007, t. 13.

<sup>9</sup> Cwmni Beaufort 'Adroddiad Omnibws Siaradwyr Cymraeg 2012', 2012, <<http://www.cllc.org.uk/nus/cyhoeddiadau-publications/ymchwil-research>>, t. 5.

Dyma gadarnhau unwaith eto mai'r oedran yn syth ar ôl y cyfnod 16-24 oed yw'r adeg y mae pobl yn darllen llawer mwy o lyfrau Cymraeg.

Dengys yr un adroddiad bod prif ffynonellau ymatebwyr rhwng 16 a 24 o ddod ar draws llyfrau Cymraeg yn wahanol i oeddrannau eraill gan mai'r 'ysgol/coleg/prifysgol' gyda 33%, a'r 'rhyngrwyd' gyda 20%, yw'r rhai mwyaf poblogaidd.<sup>10</sup> Roedden nhw 'gryn dipyn yn llai tebygol na'u cymheiriaid i gael gwybodaeth o siopau llyfrau', felly mae'n dangos bod angen marchnata yn wahanol ar gyfer gwahanol oeddrannau.

Mae rhan arall o'r un adroddiad yn pwysleisio 'fod yna alw sylweddol am e-lyfrau Cymraeg. Dywedodd bron i ddau o bob pump o'r rhai sydd â mynediad i'r rhyngrwyd y byddent yn ystyried prynu e-lyfr Cymraeg' er mai 'dim ond 2% o'r rhai sydd â mynediad i'r rhyngrwyd sydd wedi prynu e-lyfr Cymraeg'.<sup>11</sup> Mae adroddiad 'E-gyhoeddi yn y Gymraeg' gan Ganolfan Bedwyr yn 2011 yn cytuno â'r canfyddiad hwn am ei fod yn gweld fod cynnig darpariaeth e-lyfrau deilwng yn y Gymraeg yn fater brys, er mwyn rhoi'r un cyfleoedd cyfartal ymarferol i ddarllenwyr Cymraeg ag i ddarllenwyr Saesneg, ond hefyd er mwyn cryfhau delwedd y Gymraeg fel iaith ddeniadol, gyfoes.<sup>12</sup> Mae'n amlwg bod cynhyrchu e-lyfrau wedi bod yn bwnc trafod pwysig i'r diwydiant cyhoeddi ers rhai blynyddoedd bellach, felly mae'n amlwg ei bod yn bryd gwneud dewisiadau mwy pendant ynglŷn â lle e-lyfrau yn y diwydiant cyhoeddi Cymraeg.

Roedd rhan arall o'r un adroddiad yn awgrymu ystyried cyhoeddi llyfrau sydd allan o brint ar ffurf electronig:

---

<sup>10</sup> Cwmni Beaufort 'Adroddiad Omnibws Siaradwyr Cymraeg 2012', 2012, t. 10.

<sup>11</sup> Cwmni Beaufort 'Adroddiad Omnibws Siaradwyr Cymraeg 2012', 2012, t. 2.

<sup>12</sup> Delyth Prys, Gruffudd Prys, Dewi Bryn Jones, David Chan 'E-gyhoeddi yn y Gymraeg', Bangor 2011, <<http://www.cllc.org.uk/ni-us/cyhoeddiadau-publications/ymchwil-research>>, t. 16.

Mae hen lyfrau allan o hawlfraint sy'n cael eu dosbarthu am ddim ar rai o'r dyfeisiau e-ddarllen yn boblogaidd iawn yn Saesneg. Byddai darpariaeth o'r fath yn ddeniadol i ddarllenwyr e-lyfrau Cymraeg ... yn denu darllenwyr i ymweld, er enghraifft, â gwefan Gwales, pe gosodid yr e-lyfrau am ddim yno ochr yn ochr â llyfrau modern ar werth.<sup>13</sup>

Byddai hyn yn gwneud darpar gwsmeriaid e-lyfrau Cymraeg yn ymwybodol ohonynt.

---

<sup>13</sup> Delyth Prys, Gruffudd Prys, Dewi Bryn Jones, David Chan 'E-gyhoeddi yn y Gymraeg', Bangor 2011, t. 17.

#### 4. Y Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata: Astudiaeth Achos

O ystyried bod y gweisg a'r cyhoeddwyr yn fwyfwy ymwybodol o bwysigrwydd marchnata eu llyfrau, a bod hyn yn berthnasol hefyd i'r cylchgronau a noddir gan y Cyngor Llyfrau, penderfynwyd gwneud achos prawf gan ganolbwyntio ar un cylchgrawn Cymraeg sy'n derbyn grant o £15,000, sef *Y Selar*.<sup>14</sup> Mae hwn yn gylchgrawn Cymraeg a gyhoeddir bedair gwaith y flwyddyn ac sydd wedi ei anelu'n benodol at bobl ifanc rhwng 15 a 25 oed. Fe'i dosberthir yn rhad ac am ddim.

Sylwyd bod *Y Selar* wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol i greu ymwybyddiaeth o Noson Wobrau'r Selar ym mis Chwefror 2014, felly dewiswyd ceisio gweld a ddylai *Y Selar* ddefnyddio tactegau tebyg i gael pobl i ddarllen y cylchgrawn, boed hynny yn brintiedig neu yn electronig ar wefan y cylchgrawn.<sup>15</sup>

Nid yw safon gwefan *Y Selar* hanner cystal o ran diwyg â'r cylchgrawn. Mae'r wefan yn dywyll, nid oes llawer o gynnwys arni ac mae'n rhaid defnyddio gwefan Issu er mwyn ei darllen. Nid yw'n hawdd darllen y cylchgrawn ar Issu yn enwedig ar dabled neu ar ffôn. Gwerthwyd pob tocyn cyn y Noson Wobrau, ac yn ôl y rhaglen 'Heno' ar S4C, mynychodd '500 o bobl' y digwyddiad.<sup>16</sup> Mae'n rhaid bod *Y Selar* wedi darganfod ffordd effeithiol o greu ymwybyddiaeth o'r digwyddiad ac i argyhoeddi'r gynulleidfa fod y noson wobrwyo yn ddigwyddiad yr oedd werth iddynt wario eu harian arno, a theithio o wahanol rannau o Gymru i'w mynychu.

Mae'r *New Musical Express* (NME) yn un o gylchgronau cerddoriaeth Saesneg enwocaf Prydain. Mae'n targedu oedrannau tebyg i'r Selar. Yn ôl gwybodaeth ar wefan 'BBC News' mae ffigurau ABC (Audit Bureau of Circulations)

---

<sup>14</sup> Cyngor Llyfrau Cymru (2014) *Adroddiad Blynyddol 2013-14*, t. 22.

<sup>15</sup> Gweler <<http://www.y-selar.com/>> (cyrchwyd Mai 2014).

<sup>16</sup> Heno, rhaglen deledu, Tinopolis, S4C, 17 Chwefror 2014.

diweddaraf y cylchgrawn yn dweud iddynt werthu ‘an average of just 18,184 per issue’,<sup>17</sup> yn ail hanner 2013. Yn ôl y BBC maent wedi colli 21% o’u darllenwyr er Rhagfyr 2012 ‘when each issue was selling about 23,000 copies’. Yn 2008, ychydig dros bum mlynedd yn ôl, roedd gan y cylchgrawn gylchrediad o 56,284.<sup>18</sup>

Mae hyn yn golygu bod y cylchgrawn printiedig wedi colli 68% o’i ddarllenwyr yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. Er hynny, mae’n amlwg nad yw ‘brand’ NME yn hollol ddiwerth gan fod gan y wefan 1.4 miliwn o ddefnyddwyr yr wythnos, a bod miloedd o bobl yn mynychu cyngherddau byw a digwyddiadau a drefnir ganddynt.

Nid oes dim ffordd o wybod a yw datblygiad y We wedi effeithio ar *Y Selar* yn yr un ffordd ag y mae wedi ar yr NME. Cadarnhaodd Owain Schiavone, golygydd *Y Selar*, bod 4,000 o gopïau o’r *Selar* yn cael eu dosbarthu bob tri mis. Nid oes dim ffordd glir o fonitro faint o’r copïau hynny sydd yn cael eu darllen gan nad yw’r cyhoeddwr yn casglu unrhyw gopïau sydd ar ôl. Mae rhai cylchgronau Saesneg yn gwneud hyn oherwydd mae’n bwysig ar gyfer gallu gwerthu hysbysebion. Os oes gwir ddiddordeb gan gyhoeddwyr *Y Selar* i weld a ydyn nhw’n cyrraedd y bobl ifanc, byddai’n syniad cadw llygad ar faint o gopïau maen nhw’n eu dosbarthu ym mhob man, a phan maen nhw’n mynd â’r rhifyn nesaf i’r siopau ac at y dosbarthwyr, dylent gasglu unrhyw hen gopïau sydd dros ben.

Mae’n bosibl y byddai o fudd i’r *Selar* ganolbwyntio ar greu gwefan ddeniadol a modern er mwyn cyrraedd y gynulleidfa gan argraffu llai o gopïau papur. Mae angen sicrhau bod y cyhoedd yn deall mai cylchgrawn cerddoriaeth yw’r *Selar*

---

<sup>17</sup> Gwefan ‘BBC News’, ‘NME sales dip below 20,000 copies’, gw. <<http://www.bbc.co.uk/news/entertainment-arts-2618003>> (cyrchwyd ym mis Chwefror 2014).

<sup>18</sup> Luft, Oliver, Magazine ABCs: ‘Double digits declines dent music titles’, *Mediaweek*, gw. <<http://www.mediaweek.co.uk/article/1117595/magazine-abcs-double-digit-declines-dent-music-titles>> (cyrchwyd ym mis Chwefror 2014).

ac nid dim ond brand ar gyfer gigiau. Yn ddiweddar, mae'r *Selar* wedi bod yn postio dolenni ar Twitter wrth iddynt bostio rhywbeth newydd ar eu gwefan. Byddai'n syniad da gwneud hyn ar Facebook hefyd. Byddai hefyd yn syniad da darparu hyfforddiant ar gyfer cyhoeddwr *Y Selar* ar sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol er mwyn gallu denu mwy o ddarllenwyr ac er mwyn ymddangos yn broffesiynol. Byddai'n werth cynnig y math hwn o hyfforddiant i bawb yn y diwydiant cyhoeddi fel bod pob ymdrech yn y cyfeiriad hwn yn hybu'r gwaith o farchnata a chynyddu nifer y darllenwyr.

Yn dilyn cynnal Noson Wobrau'r *Selar* yn Chwefror 2014, lluniwyd holiadur a'i anfon at groestoriad o 50 o bobl ifanc a oedd yn ddilynwyr *Y Selar* ar y rhwydwaith cymdeithasol Facebook a Twitter. Dyma'r canlyniadau:

<b>1(a). Wnaethoch chi fynychu Noson Wobrau'r <i>Selar</i>?</b>	
Do	42 (84%)
Naddo	8 (16%)

<b>1(b). Os mai 'Do' oedd eich ateb sut glywsoch chi am y gwobrau? (Gallwch nodi mwy nag un blwch)</b>	
Yng nghylchgrawn <i>Y Selar</i>	16 (38%)
Ar wefan <i>Y Selar</i>	7 (17%)
Ar Twitter	29 (69%)
Ar Facebook	38 (90%)
Mewn cylchgrawn/papur newydd arall	2 (5%)

Ar wefan arall	0 (0%)
Ar y radio	7 (17%)
Drwy ffrind	20 (48%)
Poster	21 (50%)
Arall	4 (10%)

Atebodd 90% o'r bobl a wnaeth fynychu Noson Wobrau'r Selar eu bod wedi clywed am y digwyddiad ar Facebook, a 69% yn dweud eu bod wedi clywed amdano ar Twitter. Mae hyn yn dangos y tu hwnt i bob amheuaeth pa mor bwysig yw defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn denu sylw pobl ifanc erbyn heddiw. Mae hefyd yn dangos bod *Y Selar* wedi bod yn llwyddiannus yn targedu pobl ar Facebook gan fod canran mor uchel wedi clywed am y digwyddiad trwy'r dull hwn. Dylai'r ystadegau hyn fod yn agoriad llygad i gyhoeddwyr *Y Selar* os ydyn nhw'n dal i ystyried a ddylid parhau i hyrwyddo'r cylchgrawn ar eu gwefan ac ar Facebook. Mae'r ystadegau uchod yn dangos mai dim ond 17% o bobl a glywodd am y digwyddiad ar wefan y cylchgrawn. Mae'r gwahaniaeth rhwng y nifer o bobl a glywodd am y digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol a'r nifer a glywodd amdano ar eu gwefan yn sylweddol iawn.

Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol hefyd, a hynny mewn dwy ffordd wahanol er mwyn cael gwybodaeth fanylach drwy holi'r ail gwestiwn, sef rhif 3 isod:

<b>2. Ydych chi'n defnyddio gwefan <i>Y Selar</i>?</b>	
Ydw	18 (36%)

Nac ydw	28 (56%)
Arall	4 (8%)

<b>3. Ydych chi'n defnyddio gwefan <i>Y Selar</i>?</b>	
Ydw	18 (36%)
Na, dydw i erioed wedi bod ar y wefan	18 (36%)
Na, does dim digon o gynnwys i fy nenu	10 (20%)
Na, dydw i ddim yn hoffi cynnwys y wefan	2 (4%)
Arall	2 (4%)

Mae'n werth edrych ar yr atebion i'r cwestiwn yn y ddwy ffurf eu gofynnwyd ynddynt. Gosodwyd yr atebion ar ffurf yr ail ffurf. Roedd gosod y cwestiynau yn rhif 3 uchod yn rhoi cyfle i weld yn fanylach beth oedd y rhesymau dros beidio â defnyddio'r wefan. Mae'n ddiddorol sylwi bod y canlyniadau yn gyson â llawer o'r atebion a gafwyd i'r cwestiynau yn holiadur y prif brosiect a'r grwpiau ffocws ynghylch arferion darllen pobl rhwng 15 a 25 oed. Maent yn cadarnhau nad oes dim ymwybyddiaeth o'r cyfryngau Cymraeg yn bodoli'n barod gan Gymry Cymraeg ifanc. Er bod o leiaf 90% o atebwyr 1(b) wedi clywed am ddigwyddiad *Y Selar* ar-lein, nid yw 56% o ymatebwyr y cwestiwn hwn yn defnyddio gwefan *Y Selar*.

Gofynnwyd cwestiwn pellach ynghylch gwefan y cyhoeddiad:



<b>4. Pe byddai cynnwys a gwefan <i>Y Selar</i> o'r un safon â'r cylchgrawn, fyddech chi'n ei ddarllen?</b>	
Byddwn	43 (86%)
Na fyddwn	4 (8%)
Heb ateb	3 (6%)

Atebodd 86% y bydden nhw yn darllen gwefan *Y Selar* pe bai cynnwys a dyluniad y wefan o'r un safon â'r cylchgrawn. Y rheswm pam y gofynnwyd y cwestiwn hwn yw oherwydd bod pob rhifyn o gylchgrawn *Y Selar* yn edrych yn ardderchog. Mae'n lliwgar ac mae'n hawdd i'w ddarllen. Mae'r wefan yn hollol i'r gwrthwyneb. Mae'r diwyg yn dywyll iawn, mae'r ffont yn fach ac mae'n anodd darllen y testun gan fod y cefndir yn ddu. Mae'r dyluniad yn hen-ffasiwn ac nid yw'n gyson gyda gweddill brand *Y Selar*.

Aethpwyd ati i ofyn cwestiwn pellach i'r 50 a oedd yn y sampl ynghylch eu defnydd o wahanol gyfryngau eraill, ar wahân i gylchgrawn *Y Selar*, a ddefnyddiant yn wythnosol. Dyma'r atebion:

<b>5. Ydych chi'n defnyddio neu ddarllen y canlynol o leiaf bob wythnos?</b>	
Twitter	46 (92%)
Facebook	50 (100%)
Golwg 360	24 (48%)
Radio Cymru	33 (66%)
S4C	41 (82%)

Dim un o'r uchod	0 (0%)
------------------	--------

Roedd gweld bod 100% o'r atebwyr yn defnyddio Facebook a 92% yn defnyddio Twitter o leiaf unwaith yr wythnos yn dangos yn ddigon clir bod cynulleidfa Gymraeg i'w chael ar wefannau'r cyfryngau cymdeithasol sydd â'r potensial i ddarllen a rhannu cynnwys Cymraeg. Rhaid cydnabod nad oedd yr holiadur a luniwyd ar gyfer yr astudiaeth achos hon ond ar gael ar-lein, ac felly ei bod yn ddisgwyliedig y byddai pawb o'r ymatebwyr ymhlith y sampl yn defnyddio gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol yn y lle cyntaf. Serch hynny, mae'r astudiaeth achos hon yn dangos y ffordd ac yn arwydd o botensial y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer hyrwyddo a marchnata a chynyddu cylchrediad cyhoeddiadau print.

## 5. Canlyniadau'r Holiadur

Dyma droi at ddadansoddi'r data a gasglwyd yn yr holiadur. Noder bod y canrannau wedi eu talgrynnu. Gyda'r cwestiynau lle'r oedd modd ticio mwy nag un blwch mae'r ganran yn dangos faint o ymatebwyr yn y grŵp sydd wedi dewis yr opsiwn hwnnw. Cwblhawyd 252 o holiaduron, yn cynnwys y fersiwn print ac electronig. Mae'r tabl isod yn dangos y grwpiau oedran (gw. adran 2 uchod).

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
<b>Cyfanswm</b>	252	100%
Grŵp 1	129	51%
Grŵp 2	79	31%
Grŵp 3	44	17%

Mae'r tabl isod yn dangos y dosraniad rhyw rhwng bechgyn a merched. Wrth gymharu ymateb bechgyn a merched i'r holiadur fe welir bod y sampl yn gymharol hafal.

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Merched	138	55%
Bechgyn	112	45%
Dim ateb	2	1%

I ddechrau, roedd ystyriaeth ynghylch a ddylid cynnwys dysgwyr yn yr arolwg hwn am nad oeddynt yn debygol o fod yn ddarllenwyr rhugl. Ar ôl clywed yr awdures

Bethan Gwanas yn dweud pa mor bwysig oedd llyfrau i ddysgwyr ym myd cyhoeddi Cymraeg, fel rhan o sgwrs ehangach am ei gyrfa fel awdur yn Neuadd Pantycelyn ar Dachwedd 20, 2013, penderfynwyd nad oedd unrhyw reswm dros beidio â'u cynnwys. Serch hynny, dim ond tri ymatebydd a oedd yn eu hystyried eu hunain yn ddysgwyr. Postiwyd yr holiadur yng ngrwpiau Facebook i ddysgwyr ond mae'n bosibl bod y bobl a lenwodd yr holiadur wedi ymateb fel rhai yr oedd y Gymraeg yn ail iaith iddynt.

Mae llai o Gymry ail iaith wedi llenwi'r holiadur. Un o'r rhesymau am hyn yng Ngrŵp 1 yw bod mwy o holiaduron wedi cael eu hanfon i ysgolion uwchradd penodedig Gymraeg neu ddwyieithog. Erbyn cyrraedd oedran Grwpiau 2 a 3 dim ond ychydig oedd yn eu hystyried eu hunain yn Gymry ail iaith neu'n Ddysgwyr. Postiwyd yr holiadur ar grwpiau Facebook cymdeithasau Cymraeg mewn prifysgolion y tu allan i Gymru. Efallai y buasid wedi disgwyl bod mwy o bobl y mae'r Gymraeg yn ail iaith iddynt wedi ateb 'Ail Iaith a Dysgwyr' oherwydd hyn. Mae'n bosibl mai'r rheswm pam na chafwyd cymaint o ymateb gan bobl ail iaith neu Ddysgwyr o'r tu allan i Gymru yw bod mwy o ddiddordeb gan fyfyrwyr iaith gyntaf mewn llenwi'r holiadur, a bod y broses o lenwi yn un gwbl wirfoddol. Yn achos Grŵp 1, yr oedd amgylchiadau llenwi'r holiadur yn wahanol am ei fod yn fwy dan reolaeth, a bod disgyblion yn cael gwŷs gan eu hathrawon i'w gwblhau.

## ADRAN A

### Cwestiwn 1. Ai Cymraeg yw eich...

Ymatebion pawb

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Iaith gyntaf	180	71%
Ail iaith	69	27%
Dysgwr	3	1%

Grŵp 1

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Iaith gyntaf	85	66%
Ail iaith	44	34%
Dysgwr	0	0%

Grŵp 2

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Iaith gyntaf	62	78%
Ail iaith	15	19%
Dysgwr	2	3%

### Grŵp 3

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Iaith gyntaf	33	75%
Ail iaith	10	23%
Dysgwr	1	2%

### Cwestiwn 2. Oedran

Mae'r tabl isod yn dangos dosraniad o oedrannau'r rhai a gwblhaodd yr holiadur.

Anfonwyd copïau o'r holiaduron i 10 ysgol neu goleg addysg bellach. Fel yr esboniwyd eisoes uchod, roedd y disgyblion iau yn fwy tebygol o fod yn llenwi'r holiadur mewn dosbarth dan gyfarwyddyd yr athrawon. Nid oes rhaid i ddisgyblion y chweched dosbarth fod yn yr ysgol drwy'r dydd mewn llawer o ysgolion, yn enwedig yn ystod cyfnod arholiadau. Mae dosbarthiadau'r chweched dosbarth fel arfer yn llai hefyd. Byddai hyn yn esbonio pam y derbyniwyd mwy o atebion gan ddisgyblion 15 ac 16 oed (blwyddyn 10 ac 11) na disgyblion 17 ac 18 (Blwyddyn 12 a 13). Fel arall, llenwodd y rhan fwyaf o Grŵp 2 a 3 yr holiadur ar y We. Nid oedd rheswm penodol ganddynt dros lenwi'r holiadur am fod y cymhelliad yn gwbl wirfoddol, felly roedd hi'n amlwg ei bod hi'n mynd i fod yn anos cael cymaint o atebion gan y grwpiau hyn. Fel y nodwyd eisoes, roedd postio'r holiadur ar grŵp Facebook cymdeithasau prifysgolion yn ffordd hawdd o gyrraedd nifer fawr o bobl o'r oedrannau hynny (19-21 oed).

Mae llawer o newidiadau yn amgylchiadau pobl ifanc rhwng 15 a 25 oed. Yn aml maent yn gadael cartref am y tro cyntaf. Bydd rhai yn cael eu swyddi cyntaf ac eraill yn mynd i brifysgol. Mae'n debygol felly bod y gwahaniaeth oedran a'r amgylchiadau gwahanol yn mynd i roi gwahaniaethau gweladwy yn eu hatebion.

#### Ymatebion pawb

Oedran	Nifer	Canran
15	68	27%
16	26	10%
17	19	8%
18	15	6%
19	25	10%
20	25	10%
21	29	12%
22	21	8%
23	11	4%
24	6	2%
25	5	2%
Dim ateb	2	1%

#### Grŵp 1

Oedran	Nifer	Canran
15	68	53%
16	26	20%

17	19	15%
18	15	12%

#### Grŵp 2

Oedran	Nifer	Canran
19	25	32%
20	25	32%
21	29	37%

#### Grŵp 3

Oedran	Nifer	Canran
22	22	50%
23	11	25%
24	6	14%
25	5	11%

### Cwestiwn 3. Rhyw

Mae'r tabl isod yn dangos dosraniad yr ymatebwyr yn ôl eu rhyw.

#### Ymatebion pawb

	Nifer	Canran
Benyw	138	55%
Gwryw	112	44%



Dim ateb	2	1%
----------	---	----

Grŵp 1

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Benyw	58	45%
Gwryw	69	53%
Dim ateb	1	1%

Grŵp 2

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Benyw	47	59%
Gwryw	31	39%
Dim ateb	1	1%

Grŵp 3

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Benyw	32	73%
Gwryw	12	27%
Dim ateb	0	0%

**Cwestiwn 4. Ym mha dref yr ydych yn byw?**

Derbyniwyd ymatebion gan bobl o 20 o'r 22 sir yng Nghymru a chan 34 o bobl sydd yn byw y tu allan i Gymru. Dewiswyd rhestru'r siroedd gan fod yna gymaint o ddinasoedd, trefi a phentrefi wedi cael eu henwi gyda dim ond un person yn byw yno.

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ceredigion	45	19%
Gwynedd	29	12%
Sir Gaerfyrddin	20	8%
Sir Ddinbych	21	8%
Sir Fôn	8	3%
Pen-y-bont ar Ogwr	6	2%
Caerdydd	19	8%
Wrecsam	10	4%
Casnewydd	5	2%
Caerffili	9	4%
Sir Abertawe	5	2%
Gwent	3	2%
Conwy	1	1%
Castell-nedd Port Talbot	1	1%
Torfaen	10	4%
Powys	7	3%
Rhondda Cynon Taf	3	2%
Bro Morgannwg	1	1%
Sir Fynwy	1	1%

Sir Fflint	5	2%
Tu allan i Gymru	34	13%

Dyma bob dinas, tref neu bentref a enwyd gan fwy na phump o ymatebwyr.

	Nifer	Canran
Aberystwyth	35	14%
Caerdydd	18	7%
Y Bala	6	2%
Caerfyrddin	6	2%
Caerffili	5	2%
Caernarfon	5	2%
Casnewydd	5	2%
Pontypŵl	5	2%

### **Cwestiwn 5(a) Statws**

Mae'r tabl isod yn dangos y dosraniad o'r rhai a ymatebodd a oedd mewn addysg, mewn gwaith neu'n ddi-waith. Roedd yn bosibl dewis mwy nag un opsiwn.

Mae 50% o Grŵp 3 yn fyfyrwyr coleg/prifysgol. Roedd hi'n anos cyrraedd y grŵp hwn gan eu bod yn fwy ar wasgar na'r ddau grŵp arall. Gwnaethpwyd ymdrech i wneud yn siŵr nad oedd Grŵp 3 ddim ond yn fyfyrwyr coleg neu brifysgol rhag ofn iddynt fod yn rhy debyg i Grŵp 2. Byddai cael myfyrwyr coleg/prifysgol yn unig yng ngrŵp 3 yn golygu y byddai'r ymatebwyr yn rhy debyg i'w gilydd gan y byddai'n debygol y byddai ganddynt oll ddiddordeb yn y byd academiaidd. Ni fyddai hynny'n

gynrychioladol o bobl yr oedran hwn yn gyffredinol oherwydd yn ôl data'r Higher Education Statistics Agency<sup>19</sup> dim ond tua 2% o boblogaeth Prydain sydd yn astudio mewn coleg/prifysgol yn yr oedran hwn.

Fel arall mae 93% o Grŵp 1 yn ddisgyblion ysgol ac mae 86% o Grŵp 2 yn fyfyrwr coleg/prifysgol. Mae'r canrannau hyn yn uwch na'r canrannau drwy'r wlad, felly mae tuedd tuag at bobl sydd yn dal mewn addysg ym mhob un o'r grwpiau hyn.

### Cwestiwn 5(a). Ydych chi'n....?

	<b>Grwp 1</b>	<b>Grwp 2</b>	<b>Grwp 3</b>	<b>Pawb</b>
	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>
disgybl ysgol?	120 (93%)	0 (0%)	0 (0%)	120 (48%)
myfyriwr coleg/prifysgol?	10 (8%)	68 (86%)	22 (50%)	100 (40%)
gweithio'n llawn amser?	0 (0%)	0 (0%)	14 (32%)	14 (6%)
gweithio'n rhan amser?	8 (6%)	11 (14%)	4 (9%)	23 (9%)
di-waith	0 (0%)	0 (0%)	6 (14%)	6 (3%)
Arall?	0 (0%)	0 (0%)	2 (5%)	2 (1%)

<sup>19</sup> Gweler <<https://www.hesa.ac.uk/stats>> (Cyrchwyd ym mis Medi 2014).

## ADRAN B

### Cwestiwn 6. Pa fath o ddeunydd ydych chi'n ddarllen yn eich amser hamdden?

(heb gyfri gwaith cwrs ysgol/prifysgol). Yr oedd modd dewis mwy nag un ateb.

	<b>Grwp 1</b>	<b>Grwp 2</b>	<b>Grwp 3</b>	<b>Pawb</b>
	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>
Llyfrau	77 (60%)	48 (61%)	34 (77%)	159 (63%)
Cylchgronau/papurau newydd	71 (55%)	49 (62%)	35 (80%)	155 (62%)
Y We	107 (83%)	69 (87%)	40 (91%)	216 (86%)
E-lyfrau/e-gylchgronau	14 (11%)	17 (22%)	15 (34%)	46 (18%)

Gwelir mai 'Y We' sydd uchaf ym mhob grŵp. Mae'r ganran o bobl sydd yn darllen ar y We yn uchel iawn ac mae'r ganran yn cynyddu wrth i oedran y grwpiau fynd yn hŷn.

Mae'r ganran sy'n darllen 'Llyfrau' a 'Cylchgronau/papurau newydd' yn agos iawn gyda mwy o bobl yn y ddau grŵp hŷn yn fwy tebygol o ddarllen cylchgronau/papurau newydd na llyfrau. Mae'r ganran o bobl sy'n darllen 'E-lyfrau/e-gylchgronau' yn isel iawn. Mae'r ganran yn cynyddu wrth i oedran y grwpiau fynd yn hŷn, serch hynny.

Mae ymchwil gan gwmni marchnad Voxburner yn dangos bod yn well gan 62% brynu llyfrau nag e-lyfrau. Buasai rhai pobl yn rhagdybio y buasai pobl ifanc yn fwy tebygol o ddefnyddio e-ddarllenwydd gan eu bod wedi cael eu magu gyda'r dechnoleg ac yn aml yn fwy medrus a hyderus gyda thechnoleg na phobl hŷn. Efallai y bydd mwy o bobl ifanc yn darllen e-lyfrau ac e-gylchgronau wrth i fwy o ffonau symudol a thabledi—teclynnau sydd ganddynt yn barod—ei gwneud hi'n haws i'w darllen ar eu ffonau, e.e. gydag ap Kindle.

Dyma ddadansoddiad o'r ymatebion i Gwestiwn 6 o ran y ddau ryw.

	<b>Merched</b>	<b>Bechgyn</b>
	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>
Llyfrau	97 (70%)	60 (54%)
Cylchgronau/papurau newydd	96 (70%)	59 (53%)
Y We	116 (84%)	99 (88%)
E-lyfrau/e-gylchgronau	29 (21%)	17 (15%)

Mae tuedd i'r ganran o ddeunydd darllen fod yn fwy ymhlith y merched nag ymhlith y bechgyn, ac mae'n ddiddorol fod y ganran o ddefnydd y ddau ryw o'r We yn ddigon cyfartal.

**Cwestiwn 7(a). Ydych chi'n fwy tebygol o ddarllen deunydd printiedig yn Gymraeg neu yn Saesneg yn eich amser hamdden?**

Ymatebion pawb

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
--	--------------	---------------

Cymraeg	15	6%
Saesneg	172	68%
Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	61	24%
Dim ateb	3	1%

Grŵp 1

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Cymraeg	6	5%
Saesneg	93	72%
Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	30	23%
Dim ateb	0	0%

Grŵp 2

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Cymraeg	5	6%
Saesneg	54	68%
Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	17	22%
Dim ateb	3	4%

Grŵp 3

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Cymraeg	4	9%
Saesneg	26	59%
Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	14	32%
Dim ateb	0	0%

Mae'r ganran o bobl sy'n dewis deunydd darllen Saesneg yn bennaf yn sylweddol uwch na'r ddau ddewis arall. Nid yw'r ganran o bobl sy'n dewis deunydd Cymraeg yn bennaf yn codi i fwy na 10% yn yr un grŵp oedran.

Mae'r ganran o ddeunydd Saesneg ar ei uchaf ymhlith grŵp oedran 1, ac ar ei isaf yng ngrŵp oedran 3. Mae'n ddi-ddorol nodi hefyd fod y ganran o bobl sy'n darllen deunydd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ar ei uchaf ymhlith grŵp 3, sef 32%. Mae 9% o bobl yng ngrŵp 3 yn darllen deunydd Cymraeg yn bennaf, felly mae mwy o duedd tuag at ddarllen deunydd Cymraeg ei iaith ymhlith yr oedran hŷn. A oes awgrym yma fod y deunydd Cymraeg yn apelio mwy at bobl wrth iddynt aeddfedu a mynd yn hŷn?

**7. (b). Os gwnaethoch chi dicio 'Cymraeg' yn unig esboniwch pam.**

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Mae'n haws	5	33%
Cymraeg yw fy mamiaith	6	40%
Mae'n well gen i	4	27%



ddeunydd Cymraeg		
Dim ateb	0	0%

Pymtheg yn unig o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn fwy tebygol o ddarllen yn Gymraeg yn brintiedig. Gan fod cyn lleied o ymatebion i gwestiwn 7.(b) a bod y rhesymau a roddwyd fel ateb yn debyg i'w gilydd, roedd yn bosibl eu rhestru i gyd uchod.

**7. (c). Os gwnaethoch chi dicio 'Saesneg' yn unig esboniwch pam.**

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Mwy o ddewis a deunydd dwi'n ei hoffi	48	28%
Mae'n haws	38	22%
Mwy cyfleus	22	13%
Mwy o newyddion yn Saesneg	17	10%
Safon yn uwch	15	9%
Saesneg yw fy mamiaith	9	5%
Dim ateb	2	1%

Ymatebodd 172 o bobl eu bod yn fwy tebygol o ddarllen deunydd printiedig yn Saesneg. Mae 151 o'r ymatebion, neu 88%, wedi eu crynhoi yn y tabl uchod. Dim ond 2 na wnaeth ddim ateb allan o'r 172, felly mae'n rhoi darlun clir o'r rhesymau pam y mae'r ymatebwyr yn fwy tebygol o ddarllen yn Saesneg. Roedd yna fwy o

amrywiaeth o atebion i'r cwestiwn hwn nag i 7. (b). Mae atebion am 'Mwy o ddewis a deunydd dwi'n ei hoffi' yn cwmpasu mathau o lyfrau, dim digon o erthyglau difyr a chwyno am ormod o lyfrau wedi eu lleoli yn y Gogledd. Mae'r atebion sydd yn dweud 'Mae'n haws' yn cynnwys nifer yn cwyno fod llyfrau Cymraeg yn gallu bod yn rhy ffurfiol. Dywedodd naw ymatebwr fod darllen yn Saesneg yn haws gan mai dyna yw eu mamiaith.

**8. Rhowch dair enghraifft o unrhyw ddeunydd darllen printiedig Cymraeg rydych chi'n ei ddarllen yn eich amser hamdden.**

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Llyfrau	77	31%
Cylchgronau	27	11%
Papurau newydd	17	7%
Papurau bro	62	25%
<i>Golwg</i>	48	19%
<i>Y Selar</i>	11	4%
Dim ateb	58	23%

O'u cymharu â'r ymatebion i gwestiwn 9 nid yw'r ymatebion yn enwi llawer o lyfrau na chyhoeddiadau penodol. Roedd 34 o'r ymatebion sydd wedi cael eu cwmpasu o fewn 'Llyfrau' yn dweud eu bod yn darllen 'nofelau' ond ni wnaethon nhw enwi pa nofelau yn benodol. Mae'r ffaith fod 23% o bobl wedi dewis peidio ag ateb y cwestiwn hwn o gymharu â dim ond 8% ar gyfer cwestiwn 9 yn arwydd bod rhai na allant enwi unrhyw ddeunydd Cymraeg printiedig maent yn ei ddarllen yn eu hamser

hamdden. Ni wnaeth 16 o bobl ymateb i gwestiwn 8 na 9. Mae hyn yn gadael 3 o bobl a wnaeth ddewis ymateb i gwestiwn 8 gan eu bod nhw yn gallu enwi deunydd Cymraeg printiedig maen nhw'n ei ddarllen yn eu hamser hamdden ond heb wneud yr un peth am ddeunydd Saesneg. Er hyn, ar gyfer cwestiwn 8 mae'n gadael 42 o bobl a oedd yn gallu enwi deunydd Saesneg maen nhw'n ei ddarllen yn eu hamser hamdden ond heb wneud yr un peth am ddeunydd Cymraeg. Mae hyn yn golygu nad pobl nad ydynt yn darllen o gwbl yw'r bobl nad ydynt yn ymateb i gwestiwn 8 gan eu bod nhw wedi gallu enwi pethau fel ymateb i gwestiwn 9.

**9. Rhowch dair enghraifft o ddeunydd darllen printiedig Saesneg rydych chi'n ei ddarllen yn eich amser hamdden.**

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Llyfrau	73	29%
Cylchgronau	66	26%
Papurau newydd	42	17%
<i>Guardian</i>	21	8%
<i>The Times</i>	12	5%
<i>Daily Mail</i>	9	4%
<i>The Sun</i>	6	2%
<i>Daily Post</i>	18	7%
<i>Western Mail</i>	2	1%
<i>Cambrian News</i>	6	2%
Cyfres <i>The Hunger Games</i>	14	6%

Cyfres <i>Harry Potter</i>	11	4%
Cyfres <i>The Lord of the Rings</i>	7	3%
Llyfrau John Green	7	3%
Cyfres <i>A Song of Ice and Fire</i>	4	2%
Dim ateb	19	8%

Roedd yr ymatebwyr yn fwy penodol wrth restru beth roedden nhw wedi ei ddarllen nag yng nghwestiwn 8. Mae'r llyfrau mwyaf poblogaidd wedi eu haddasu ar gyfer teledu neu ffilm. Maen nhw wedi cael eu rhestru yn y tabl uchod.

O'r papurau newydd a enwyd gan yr ymatebwyr, y rhai mwyaf poblogaidd oedd papur newydd y *Guardian*, sydd ar gael ar draws Prydain, a phapur newydd lleol Gogledd Cymru y *Daily Post*. Yn 44m los oedd person yn enwi papur newydd byddent hwy yn enwi mwy nag un.

**Cwestiwn 10. Pa fath o lyfrau ydych chi'n mwynhau eu darllen yn eich amser hamdden?** Roedd modd dewis mwy nag un ateb.

	Grwp 1	Grwp 2	Grwp 3	Pawb
	Nifer (%)	Nifer (%)	Nifer (%)	Nifer (%)
Ffeithiol	56 (43%)	41 (52%)	31 (70%)	128 (51%)
Ffuglen	73 (57%)	53 (67%)	33 (75%)	159 (63%)
Chwaraeon	41 (32%)	16 (20%)	11 (25%)	68 (27%)
Rhamant	26 (20%)	28 (35%)	15 (34%)	69 (27%)

Doniol	60 (47%)	35 (44%)	19 (43%)	114 (45%)
Ffuglen Wyddonol	26 (20%)	21 (27%)	8 (18%)	55 (22%)
Trosedd	43 (33%)	24 (30%)	10 (23%)	77 (31%)
Arall	17 (13%)	0 (0%)	2 (5%)	19 (8%)
Dim ateb	0 (0%)	5 (6%)	0 (0%)	5 (2%)

Mae mwy o wahaniaeth rhwng atebion y merched a'r bechgyn nag sydd rhwng y grwpiau oedran, fel y gwelir yn y tabl isod. Mae canran sylweddol o fechgyn yn fwy tebygol o ddarllen llyfrau 'Ffeithiol' a 'Chwaraeon' na merched. Mae canran sylweddol o ferched yn fwy tebygol o ddewis 'Ffuglen', 'Rhamant' a 'Trosedd'. Mae 25% yn fwy o ferched wedi nodi 'Ffuglen' o'u cymharu â'r bechgyn. Er hynny, mae hanner y bechgyn yn dweud eu bod yn mwynhau darllen 'Ffuglen'. Mae yna ganran debyg o ferched a bechgyn yn dweud eu bod yn mwynhau llyfrau 'Doniol'. 4% yn unig o'r bechgyn a nododd 'Rhamant', tra bod 46% o'r merched wedi ei nodi.

	<b>Merched</b>	<b>Bechgyn</b>
	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>
Ffeithiol	54 (39%)	74 (66%)
Ffuglen	103 (75%)	56 (50%)
Chwaraeon	19 (14%)	49 (44%)
Rhamant	64 (46%)	5 (4%)
Doniol	68 (49%)	46 (41%)
Ffuglen Wyddonol	26 (19%)	27 (24%)
Trosedd	50 (36%)	27 (24%)

Arall	7 (5%)	11 (10%)
Dim ateb	3 (2%)	2 (2%)

**Cwestiwn 11(a). A ydych yn teimlo fod yna ddigon o ddeunydd Cymraeg printiedig sydd o ddiddordeb i chi?**

Ymatebion pawb

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw	82	33%
Nac ydw	161	64%
Dim ateb	9	4%

Grŵp 1

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw	37	29%
Nac ydw	91	71%
Dim ateb	1	1%

Grŵp 2

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw	23	29%
Nac ydw	49	62%
Dim ateb	7	9%

Grŵp 3

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw	22	50%
Nac ydw	21	48%
Dim ateb	1	2%

Mae Grŵp 1 a 2 yn meddwl nad oes digon o ddeunydd printiedig Cymraeg ar gael ac mae'r gwahaniaeth rhwng 'Ydw' a 'Nac ydw' yn sylweddol. Mae ymatebwyr Grŵp 3 wedi eu hollti bron yn hafal gyda 50% yn dweud 'Ydw' a 48% yn dweud 'Nac Ydw'. Mae'r atebion yn debyg iawn gan bob grŵp.

**11. (b). Os 'Nac Ydw' yw eich ateb rhowch enghreifftiau o'r math o ddeunydd darllen y byddech yn dymuno ei weld yn Gymraeg.**

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Mwy o lyfrau at fy nant i	45	19%
Dim digon i bobl ifanc	29	12%
Mwy o gylchgronau	22	9%
Eisiau papur newydd Cymraeg	13	5%
Ddim digon modern	10	4%
Dim ateb	100	40%

Roedd saith ymatebwr eisiau cylchgrawn ffasiwn a 12 o ymatebwyr eisiau cylchgrawn chwaraeon.

**12(a). Beth sy'n eich gwneud chi'n fwy tebygol o ddarllen llyfr? Roedd modd**

dewis mwy nag un ateb.

	<b>Grwp 1</b>	<b>Grwp 2</b>	<b>Grwp 3</b>	<b>Pawb</b>
	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>
Cynllun y clawr	59 (46%)	22 (28%)	14 (32%)	95 (38%)
Cynnwys y broliant	65 (50%)	44 (56%)	27 (61%)	136 (54%)
Y teitl	39 (30%)	27 (34%)	13 (30%)	79 (31%)
Pwy yw'r awdur	47 (36%)	26 (33%)	22 (50%)	95 (38%)
Pwnc y llyfr	101 (78%)	62 (78%)	33 (75%)	196 (78%)
Dim ateb	0 (0%)	3 (4%)	1 (2%)	4 (2%)

Mae cwestiwn 12(a) yn holi ynghylch dewis llyfr fel cyfrwng, a beth sydd fwyaf tebygol o ddylanwadu ar y penderfyniad i ddarllen llyfr yn y lle cyntaf. Mae'n bwysig sylwi fod modd nodi mwy nag un dewis. 'Pwnc y llyfr' yw'r ateb mwyaf poblogaidd a 'Cynnwys y broliant' yw'r ail ateb mwyaf poblogaidd gan bob grŵp. Mae'r atebwyr yng Ngrŵp 1 yn fwy tebygol o ddweud bod 'Cynllun y clawr' yn bwysig o gymharu â'r ddau grŵp arall. Mae'r atebwyr yng Ngrŵp 3 yn fwy tebygol o ddweud bod 'Pwy yw'r awdur' yn ffactor pwysig o gymharu â'r ddau grŵp arall.



**Cwestiwn 12(b). Beth yw'r prif ddyllanwad pan fyddwch yn dewis llyfr?**

	<b>Grwp 1</b>	<b>Grwp 2</b>	<b>Grwp 3</b>	<b>Pawb</b>
	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>
Cynllun y clawr	8 (6%)	4 (5%)	3 (7%)	15 (6%)
Cynnwys y broliant	24 (19%)	20 (25%)	10 (23%)	54 (21%)
Y teitl	8 (6%)	9 (11%)	3 (7%)	20 (8%)
Pwy yw'r awdur	56 (43%)	37 (47%)	6 (14%)	18 (7%)
Pwnc y llyfr	7 (5%)	3 (4%)	21 (48%)	114 (45%)
Dim ateb	16 (12%)	3 (4%)	1 (2%)	20 (8%)
Wedi rhoi mwy nag un ateb	7 (5%)	0 (0%)	0 (0%)	7 (3%)

Mae 12(b) yn gofyn cwestiwn ychydig yn wahanol gan roi'r pwyslais y tro hwn ar y dylanwad y tu ôl i ddewis llyfr penodol, a sylwer mai un dewis yn unig oedd ganddynt, yn wahanol i 12(a). Mae'n ddi-ddorol nodi bod 'Pwnc y llyfr' yn parhau fel yr ystyriaeth bwysicaf, ond bod y ganran yn llawer is y tro hwn, sef 45% ar gyfer y grŵp cyfan o gymharu â 75%. Mae'n werth sylwi fod cynnwys y broliant yn ffactor yn y tri grŵp oedran, gyda'r ganran uchaf yng ngrŵp 2, sef 25%.

### 13. Beth oedd y llyfr diwethaf i chi ei ddarllen? (Cymraeg neu Saesneg)

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Hunangofiannau	15	6%
Llyfrau John Green	11	4%
The Hunger Games	10	4%
Cyfres 'A Song of Ice and Fire'	4	2%
Dim ateb	15	6%
Llyfr arall	197	78%

Roedd y rhan fwyaf yn darllen llyfrau i oedolion. Er hyn mae'r rhai mwyaf poblogaidd, sef llyfrau John Green a chyfres 'The Hunger Games', yn llyfrau i bobl ifanc. Mae'r hunangofiannau am enwogion chwaraeon, teledu a cherddoriaeth. Fel arall mae 'na amrywiaeth o lyfrau o bob math sydd yn dangos yr ystod eang o bethau mae pobl ifanc yn mwynhau eu darllen.

### Cwestiwn 14. Faint o amser ydych chi'n ei dreulio yn darllen deunydd printiedig yn eich amser hamdden bob wythnos ar gyfartaledd?

Ymatebion pawb

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Hyd at 2 awr	137	54%

Rhwng 2 a 7 awr	77	31%
Mwy na 7 awr	24	10%
Dim ateb	9	4%
Wedi rhoi 2 ateb	5	2%

### Grŵp 1

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Hyd at 2 awr	78	60%
Rhwng 2 a 7 awr	38	29%
Mwy na 7 awr	11	9%
Dim ateb	2	2%

### Grŵp 2

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Hyd at 2 awr	42	53%
Rhwng 2 a 7 awr	24	30%
Mwy na 7 awr	7	9%
Dim ateb	4	5%
Wedi rhoi 2 ateb	2	3%

### Grŵp 3

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Hyd at 2 awr	17	39%
Rhwng 2 a 7 awr	15	34%

Mwy na 7 awr	6	14%
Dim ateb	3	7%
Wedi rhoi 2 ateb	3	7%

Os yw'r amser yn cael ei rannu dros bob dydd, mae dwy awr yr wythnos yn golygu 17 munud bob dydd ac mae 'Mwy na 7 awr' yn golygu awr bob dydd. Mae'n ddefnyddiol gallu gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng y cwestiwn hwn a chwestiwn 25 yn Adran C, sef 'Faint o amser ydych chi'n ei dreulio yn darllen deunydd electronig yn eich amser hamdden bob wythnos ar gyfartaledd?'.

Gosodwyd y ddau gwestiwn yn agos at ddiwedd y ddwy adran, sef rhif 14 yn Adran B a rhif 25 yn Adran B. Mae'r naill yn cyfeirio at 'ddeunydd printiedig' a'r llall yn cyfeirio at 'ddeunydd electronig'. 'Hyd at 2 awr' yw'r ateb mwyaf poblogaidd ym mhob grŵp oedran yng nghwestiwn 14, sef 54%. Mae'r ganran o ymatebwyr sydd wedi dewis yr ateb hwn yn cwmpo'n is wrth i'r grwpiau fynd yn hŷn, sef o 60% yng ngrŵp 1 i 39% yng ngrŵp 3.

'Hyd at 2 awr' yw'r ateb mwyaf poblogaidd i gwestiwn 25 gan Grŵp 1 a Grŵp 2. Nid oes gwahaniaeth mawr rhwng y canrannau yng nghwestiwn 14 a 25 i Grŵp 1.

Mae 43% wedi dweud eu bod yn darllen deunydd electronig 'Hyd at 2 awr' yr wythnos yng Ngrŵp 2 ac mae 41% yn darllen deunydd electronig 'Rhwng 2 a 7 awr', felly maen nhw'n weddol gyfartal. Mae'r ateb 'Rhwng 2 a 7 awr' 27% yn fwy poblogaidd na 'Hyd at 2 awr' gan ymatebwyr Grŵp 3.

**Cwestiwn 15. Ydych chi'n darllen y rhain yn Gymraeg bob mis?**

	<b>Grwp 1</b>	<b>Grwp 2</b>	<b>Grwp 3</b>	<b>Pawb</b>
	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>
<i>Y Cymro</i>	6 (5%)	5 (6%)	1 (2%)	12 (5%)
<i>Golwg</i>	11 (8%)	17 (22%)	17 (33%)	45 (18%)
Papur Bro	32 (24%)	32 (41%)	14 (30%)	78 (31%)
Dim un o'r uchod	85 (63%)	35 (44%)	19 (37%)	139 (55%)
Dim ateb	1 (1%)	3 (4%)	1 (2%)	5 (2%)

Beth sydd fwyaf amlwg yn yr atebion hyn yw bod y mwyafrif wedi dewis 'Dim un o'r uchod', sef 55% o'r holl ymatebwyr, ond pan graffwn ar y grwpiau oedran, fe welwn fod y ganran yn llawer uwch yng ngrŵp oedran 1, sef 63%. Mae'n amlwg mai pobl ifanc oedran coleg a phrifysgol a hŷn sy'n darllen deunydd newyddion printiedig yn Gymraeg. 'Papur Bro' yw'r ail uchaf yng Ngrŵp 1 a 2 ond *Golwg* yw'r ail uchaf yng Ngrŵp 3.

**16. Beth yw eich barn ar y deunydd printiedig yma yn Gymraeg? Sut gellir ei wella?**

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Mwy o amrywiaeth	57	23%
Mwy i bobl ifanc	56	22%
Byth yn clywed am ddeunydd darllen newydd	26	10%

Roedd gan rai o'r ymatebwyr bethau ffafriol i'w dweud am rai o'u hoff gylchgronau neu lyfrau. Mae diffyg ymwybyddiaeth pobl ifanc o beth sy'n bodoli yn barod yn rhywbeth sydd yn eglur yn llawer o'r ymatebion, ond mae 10% o'r ymatebion yn dweud yn glir nad ydynt yn gwybod beth sydd ar gael am nad ydynt byth yn clywed amdano.

### **ADRAN C**

#### **Cwestiwn 17 (a). A ydych yn darllen e-lyfrau o leiaf bob mis?**

Ymatebion pawb

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw yn Gymraeg	6	2%
Ydw yn Saesneg	58	23%
Nac ydw	188	75%
Dim ateb	5	2%

Grŵp 1

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw yn Gymraeg	0	0%
Ydw yn Saesneg	29	22%
Nac ydw	99	77%
Dim ateb	1	1%

Grŵp 2

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw yn Gymraeg	2	3%
Ydw yn Saesneg	17	22%
Nac ydw	59	75%
Dim ateb	3	4%

### Grŵp 3

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw yn Gymraeg	4	9%
Ydw yn Saesneg	12	27%
Nac ydw	30	68%
Dim ateb	1	2%

Mae tri chwarter yr ymatebwyr yn dweud nad ydynt yn darllen e-lyfrau o leiaf bob mis, ac mae'r ganran yn gyson uchel ym mhob grŵp oedran. Mae'n rhaid cyfaddef nad oedd y canlyniad hwnnw'n annisgwyl.

O'r nifer sydd yn darllen e-lyfrau mae'r rhai sydd yn eu darllen yn Saesneg bron ddeg gwaith yn fwy na'r rhai sy'n eu darllen yn Gymraeg. Un esboniad posibl am y gwahaniaeth yw mai prin yw'r e-lyfrau Cymraeg o'u cymharu â'r rhai Saesneg. Er hyn mae yna fwy o e-lyfrau ar gael bellach, ac mae rhai cyhoeddwr yn cynnwys ffigurau gwerthiant e-lyfrau yng nghyfanswm eu gwerthiant ar gyfartaledd ym mhob chwarter.

Mae nifer o atebion i gwestiwn 26 isod yn dangos nad oes llawer o bobl yn ymwybodol o fodolaeth e-lyfrau Cymraeg nac ychwaith lle byddent yn gallu eu

prynu. Fel mae arolygon eraill wedi dangos, nid yw e-lyfrau yn boblogaidd gyda phobl ifanc. Mewn adroddiad am arferion technolegol pobl ifanc dangosodd cwmni ymchwil marchnad Voxburner, nad oes gan bron i hanner o bobl rhwng 16 a 24 oed ddyfais e-ddarllen, fel Kindle neu dabled. Wrth gyfeirio at yr adroddiad, dywedodd Luke Mitchell, Pennaeth Mewnwelediad y cwmni, wrth wefan ‘Talking New Media’:

Young people are hugely attached to their smartphone ... This is the primary device. Then around half the UK youth audience is in education, meaning they have a laptop to get their work done ... 91% own a laptop in our new YouthTech research ... The tablet is seen as a middle point between the smartphone and the laptop, but for many young people it’s not something they really need.<sup>20</sup>

Ni ellir dweud bod angen prynu e-ddarllenydd pwrpasol i ddarllen e-lyfrau a bod hynny’n rhwystr bellach, gan fod mwy o declynnau yn ei gwneud hi’n bosibl eu darllen. Er hyn yn ôl ymchwil Voxburner mae’n ymddangos nad yw pobl ifanc yn gweld eu ffonau symudol na’u gliniadur fel teclynnau e-ddarllen ac nad oes ganddynt dabledi. Yn ôl adroddiad arall gan y cwmni, ‘Buying Digital Content’, rheswm arall nad yw pobl ifanc yn darllen e-lyfrau yw eu bod yn meddwl bod e-lyfrau yn rhy ddrud.<sup>21</sup> Roedd 92% o’r ymatebwyr yn meddwl fod e-lyfrau yn rhy ddrud. Roedd 17% yn meddwl y dylai e-lyfrau gostio 25% yn llai, roedd 28% yn meddwl y dylai e-lyfrau gostio 50% yn llai ac roedd 17% yn meddwl dylai e-lyfrau gostio 75% yn llai.

**Cwestiwn 17. (b). Os ‘Ydw yn Gymraeg’ yw eich ateb, ble byddwch chi’n prynu e-lyfrau Cymraeg? Roedd modd dewis mwy nag un ateb.**

---

<sup>20</sup> <<http://www.talkingnewmedia.com/2014/03/14/new-uk-study-finds-young-people-less-enthusiastic-about-ebooks-many-still-dont-own-a-tablet/>>.

<sup>21</sup> <<http://www.voxburner.com/publications/329-16-24s-say-ebooks-are-too-expensive>>



Ymatebion pawb

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ar Gwales	2	1%
Ar Amazon	11	4%
Ar siop iTunes	3	1%
Ar siop y cyhoeddwr	2	1%
Arall	1	1%
Dim ateb	234	93%

Grŵp 1

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ar Gwales	1	1%
Ar Amazon	7	5%
Ar siop iTunes	2	2%
Ar siop y cyhoeddwr	1	1%
Arall	0	0%
Dim ateb	118	91%

Grŵp 2

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ar Gwales	1	1%
Ar Amazon	2	3%
Ar siop iTunes	1	1%
Ar siop y cyhoeddwr	0	0%

Arall	0	0%
Dim ateb	75	95%

### Grŵp 3

	Nifer	Canran
Ar Gwales	0	0%
Ar Amazon	2	5%
Ar siop iTunes	0	0%
Ar siop y cyhoeddwr	1	2%
Arall	1	2%
Dim ateb	41	93%

Fel y disgwyliid, mae 93% o bobl heb ateb y cwestiwn yma. O'r rhai sydd wedi ateb y cwestiwn hwn nag sydd wedi dweud eu bod yn darllen e-lyfrau Cymraeg bob mis yn y cwestiwn blaenorol. Un rheswm tebygol am hyn yw eu bod yn darllen e-lyfrau Cymraeg yn llai aml na bob mis.

### Cwestiwn 18. Sut y byddwch chi'n darllen deunydd electronig yn gyffredinol?

Roedd modd dewis mwy nag un ateb.

	Grwp 1	Grwp 2	Grwp 3	Pawb
--	--------	--------	--------	------

	Nifer (%)	Nifer (%)	Nifer (%)	Nifer (%)
Ar ffôn symudol	72 (56%)	39 (49%)	16 (36%)	127 (50%)
Ar liniadur neu gyfrifiadur	65 (50%)	57 (72%)	24 (55%)	146 (58%)
Ar dabled (e.e. iPad)	54 (42%)	19 (24%)	18 (41%)	91 (36%)
Ar e-ddarllenydd (e.e. Kindle)	16 (12%)	6 (8%)	11 (25%)	33 (13%)
Arall	3 (2%)	1 (1%)	0 (0%)	4 (1%)
Dim ateb	11 (9%)	8 (10%)	2 (5%)	21 (8%)

Mae'r atebion yn dangos gwahaniaeth amlwg rhwng Grŵp 1 a Grŵp 2 a 3. Mae'r mwyafrif o Grŵp 2 a 3 yn mynd i'r brifysgol felly mae'n debygol eu bod yn treulio mwy o amser yn gweithio ar eu gliniadur neu gyfrifiadur. Mae'r niferoedd sydd wedi ateb y cwestiwn hwn yn dangos bod pobl ifanc yn darllen ar eu teclynnau. Mae hi'n dechrau dod yn haws i ddarllen e-lyfrau ar declynnau heblaw e-ddarllenydd, felly efallai y bydd mwy o bobl yn y dyfodol yn dechrau darllen deunydd ar eu teclynnau.

Darllen ar eu ffonau symudol yw'r ail ateb mwyaf poblogaidd a'r un mwyaf poblogaidd yng Ngrŵp 1. Mae ymchwil yn dangos bod darllen ar y ffôn yn tyfu'n fwy poblogaidd ac mae'n amlwg o'r canlyniadau hyn mai'r rhai ieuengaf yw'r rhai sy'n cael eu dylanwadu gan y duedd hon.

**Cwestiwn 19(a). Ydych chi'n defnyddio'r canlynol bob mis? Roedd modd gwneud mwy nag un dewis.**

	<b>Grwp 1</b>	<b>Grwp 2</b>	<b>Grwp 3</b>	<b>Pawb</b>
	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>
Twitter?	72 (56%)	49 (62%)	29 (66%)	150 (60%)
Facebook?	114 (88%)	75 (95%)	42 (95%)	231 (92%)
Golwg 360?	2 (2%)	16 (20%)	17 (39%)	35 (14%)
Newyddion BBC (Cymraeg)?	20 (16%)	34 (43%)	19 (43%)	73 (30%)
BBC News (Saesneg)?	76 (59%)	63 (80%)	34 (77%)	173 (69%)
Dim un o'r uchod.	5 (4%)	0 (0%)	1 (2%)	6 (2%)
Arall	4 (3%)	0 (0%)	0 (0%)	4 (2%)
Dim ateb	1 (1%)	4 (5%)	1 (2%)	6 (2%)

Mae canran uchel iawn o'r ymatebwyr yn defnyddio Facebook, sef 92% o bob grŵp oedran. Fe welir bod y nifer yn uchel ym mhob grŵp. Mae nifer uchel yn defnyddio Twitter, ond ddim i'r un graddau â Facebook, ac mae'r niferoedd yn debyg ym mhob grŵp. Er hyn 'BBC News (Saesneg)' yw'r opsiwn ail uchaf. Mae nifer fawr o bobl yng Ngrŵp 2 a 3 yn defnyddio'r wefan neu'r ap yma. Ers i ganlyniadau'r holiadur

hwn gael ei gasglu mae'r BBC wedi lansio gwefan ac ap ar gyfer eu gwasanaeth newyddion, sef 'BBC Cymru Fyw'.<sup>22</sup>

Byddai'n ddiddorol gweld mewn tua blwyddyn neu ddwy a fydd y wefan a'r ap hwn wedi cael unrhyw effaith ar y niferoedd sy'n defnyddio newyddion y BBC yn Gymraeg.

**Cwestiwn 19(b). Os gwnaethoch ateb 'Twitter' neu 'Facebook' ydych chi'n eu defnyddio nhw yn Gymraeg?**

Ymatebion pawb

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw	121	48%
Nac ydw	121	48%
Dim ateb	10	4%

Grŵp 1

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw	43	33%
Nac ydw	81	63%
Dim ateb	5	4%

Grŵp 2

---

<sup>22</sup> Gweler <<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw>> (cyrchwyd ym mis Medi 2014).

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw	45	57%
Nac ydw	30	38%
Dim ateb	4	5%

### Grŵp 3

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw	33	75%
Nac ydw	10	23%
Dim ateb	1	2%

Er bod y ganran a ddywedodd ‘Ydw’ a ‘Nac ydw’ yn eithaf cyfartal fel grŵp cyfan, mae’r atebion yn y grwpiau oed yn hollol wahanol i’w gilydd. Mae hyn yn dangos gwerth rhannu’r grwpiau er mwyn deall profiadau’r oedrannau gwahanol yn well.

Yn y Grŵp Ffocws gyda Grŵp 1, un o’r rhesymau a roddwyd dros beidio â siarad Cymraeg oedd er mwyn i siaradwyr Saesneg allu deall beth roedden nhw wedi ei ysgrifennu. Roedd sôn yn atebion cwestiwn 26 ac yn y grwpiau ffocws y dylai bod fersiwn Cymraeg o Twitter (Twitter wedi ei gyfieithu yn hytrach na gwefan hollol wahanol Cymraeg). Mae’n bosibl postio yn gyhoeddus ar y wefan, postio neges breifat rhwng un neu fwy o bobl ac ar Facebook mae’r rhyngwyneb yn Gymraeg hefyd. Efallai dylai’r cwestiwn hwn fod wedi bod yn gliriach er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ymatebwyr yn deall bod y cwestiwn yn cwmpasu’r elfennau hyn i gyd.

**Cwestiwn 19 (c). Os gwnaethoch ateb Golwg360, ydych chi'n ei ddarllen...**

Roedd modd dewis mwy nag un ateb.

Ymatebion pawb

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ar liniadur?	37	15%
Ar ap ar ffôn symudol/tabled?	11	4%
Dim ateb	212	84%

Grŵp 1

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ar liniadur?	2	2%
Ar ap ar ffôn symudol/tabled?	1	1%
Dim ateb	126	98%

Grŵp 2

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ar liniadur?	18	23%
Ar ap ar ffôn symudol/tabled?	2	3%
Dim ateb	61	77%

### Grŵp 3

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ar liniadur?	17	38%
Ar ap ar ffôn symudol/abled?	8	18%
Dim ateb	25	57%

Gan fod y nifer a ddewisodd Golwg360 yng nghwestiwn 19(a) mor isel, nid atebodd llawer o bobl y cwestiwn hwn. Er hynny, mae'r nifer sydd wedi ei ateb yn uwch na faint sydd wedi dweud eu bod yn darllen Golwg360 fel ateb i gwestiwn 19(a). Mae'n bosibl mai'r rheswm am hyn yw oherwydd nad ydynt yn defnyddio Golwg360 yn fisol. Mae'r cwestiwn ychydig yn gymysglyd hefyd gan nad yw'n bosibl darllen Golwg360 ar ap. Nid yw ap Golwg ond yn gadael i chi brynu'r cylchgrawn a'i ddarllen yn electronig. Mae'n bosibl darllen Golwg360 ar ffôn symudol neu dabled er nad oes gan y wefan y rhyngwyneb hawsaf i'w ddefnyddio er mwyn ei ddarllen ar ffôn neu dabled.

**Cwestiwn 20 (a). Ydych chi'n rhannu, argymhell neu ail-drydar (retweet) dolenni (links) ar Twitter neu Facebook â phobl eraill? (e.e. erthygl newyddion, blogiau, BuzzFeed).** Roedd modd gwneud mwy nag un dewis.

Ymatebion pawb.

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw yn Gymraeg	87	35%
Ydw yn Saesneg	127	50%



Nac ydw	104	41%
Dim ateb	5	2%

### Grŵp 1

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw yn Gymraeg	23	18%
Ydw yn Saesneg	41	32%
Nac ydw	68	53%
Dim ateb	1	1%

### Grŵp 2

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw yn Gymraeg	34	43%
Ydw yn Saesneg	42	53%
Nac ydw	26	33%
Dim ateb	3	4%

### Grŵp 3

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw yn Gymraeg	30	68%
Ydw yn Saesneg	29	66%
Nac ydw	10	23%
Dim ateb	1	2%

Yn debyg i gwestiwn 19(b), mae'r rhifau yn wahanol iawn unwaith rydych chi'n edrych ar y grwpiau oedran gwahanol. Mae Grŵp 1 yn llai tebygol o rannu dolenni gydag eraill nag ydyn nhw o rannu dolenni. Mae arfer Grŵp 2 a 3 i'r gwrthwyneb ac nid oes gwahaniaeth mawr rhwng a ydyn nhw'n rhannu dolenni Cymraeg neu Saesneg. Mae'r ymateb i gwestiwn 19 (b) yn y Grŵp Ffocws ac i'r cwestiwn hwn yn dangos bod yr ymatebwyr hŷn yn fwy hyderus wrth fynegi eu hunain ar-lein na'r ymatebwyr sydd yng Ngrŵp 1.

**Cwestiwn 20 (b). Ydych chi'n clicio ar neu yn darllen dolenni (links) sydd wedi cael eu postio gan eraill ar Twitter a Facebook? (e.e. erthygl newyddion, blogiau, BuzzFeed).** Roedd modd dewis mwy nag un ateb.

Ymatebion pawb.

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw, dolenni Cymraeg	132	52%
Ydw, dolenni Saesneg	186	74%
Nac ydw	56	22%
Dim ateb	7	3%

Grŵp 1

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw, dolenni Cymraeg	40	31%
Ydw, dolenni Saesneg	81	63%

Nac ydw	44	34%
Dim ateb	2	2%

### Grŵp 2

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw, dolenni Cymraeg	58	73%
Ydw, dolenni Saesneg	69	87%
Nac ydw	7	9%
Dim ateb	3	4%

### Grŵp 3

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Ydw, dolenni Cymraeg	34	77%
Ydw, dolenni Saesneg	36	82%
Nac ydw	5	11%
Dim ateb	2	5%

Yn wahanol i gwestiwn 20(a), a oedd yn gofyn am eu harferion rhannu, mae'r atebion hyn yn dangos bod atebwyr Grŵp 1 yn darllen cynnwys sydd wedi cael ei argymhell gan eraill. Yn y Grŵp Ffocws ar gyfer Grŵp 1, holwyd ynghylch y dolenni eraill y byddent yn clicio arnynt ac roedd gwefannau fideo fel 'YouTube' a 'Vine' yn boblogaidd. Nid oes gwahaniaeth mawr iawn rhwng y rhai sy'n darllen dolenni Cymraeg a Saesneg yng Ngrŵp 2 a 3. Er hynny, mae'r gwahaniaeth yn fawr iawn yng Ngrŵp 1. Mae'n ymddangos mai Saesneg yw iaith y cyfryngau cymdeithasol i nifer fawr o'r ymatebwyr yn y grŵp yma. Oddi wrth ymateb y bobl ifanc yn y Grŵp

Ffocws, un o'r prif resymau am hyn yw eu diffyg gwybodaeth am y cyfryngau Cymraeg yn gyffredinol, nid dim ond y rhai sydd ar-lein.

**21. Pa wefannau o ddiddordeb cyffredinol neu bersonol yr ydych chi'n eu defnyddio bob wythnos?**

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Facebook	89	35%
Twitter	54	21%
Wikipedia	17	7%
BBC Sport	21	8%
Sky Sports News	12	5%
Reddit	12	5%
Tumblr	17	7%
Instagram	27	11%
Pinterest	7	3%
Ebay	10	4%
Amazon	7	3%
Siopau dillad	19	8%
Guardian	10	4%
Daily Mail	11	4%
Daily Telegraph	3	1%
Wales Online	4	2%
Ffrwti	5	2%

Golwg360	8	3%
S4C	7	3%
Dim ateb	38	15%

Dewiswyd cyfiri'r siopau dillad fel un gan fod nifer wedi rhoi 'siopau dillad' a rhai eraill wedi sôn am rai yn benodol fel New Look ac ASOS. Os rhestrodd ymatebwyr fwy nag un siop ddillad dim ond unwaith y cafodd ei chyfrif.

Gwefan Golwg360, S4C a Ffrwti yw'r gwefannau Cymraeg mwyaf poblogaidd a restrwyd gan yr ymatebwyr, er bod y niferoedd a nododd y rhain yn fychan iawn.

**22. Pa fath o ddeunydd Cymraeg yr hoffech ei weld ar y We nad yw ar gael ar y funud?**

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Newyddion rhyngwladol	18	7%
Deunydd ffeithiol, ar gyfer ysgol/prifysgol	22	9%
Mwy o bethau i bobl ifanc	10	4%
Mwy o erthyglau Cymraeg ar wefannau BBC	6	2%
Mwy o wefannau fel Buzzfeed	6	2%
Gwefan chwaraeon	6	2%

Gwefan ffasiwn	6	2%
Mwy o fideos	6	2%
Dim byd	15	6%
Ddim yn gwybod	10	4%
Dim ateb	99	39%
Arall	90	36%

Nododd llawer o ymatebwyr yr hoffent gael gwefan am eu diddordebau fel chwaraeon, ffasiwn a cherddoriaeth.

Mae 15 person wedi dweud nad oes dim angen cael mwy o wefannau Cymraeg. Mae un yn dweud nad oes dim angen mwy oherwydd ‘fod Saesneg yn well’ ac mae un arall yn dweud nad oes dim angen mwy oherwydd ‘mae’na ddigon yn barod’. Fel arall nid yw’r ymatebwyr yn dweud beth oedd eu rhesymau.

Mae’r galw am ‘newyddion rhyngwladol’ yn lle dim ond newyddion lleol yn Gymraeg wedi bod yn ateb i sawl cwestiwn yn yr holiadur a rhywbeth roedd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws wedi sôn amdano hefyd. Mae newyddion rhyngwladol ar wefan Golwg360 ond mae’n amlwg nad oes llawer o bobl ifanc yn ymwybodol bod y wefan yn bodoli o gwbl, neu ddim yn ymwybodol fod y wefan yn cynnwys newyddion rhyngwladol.

Dewisodd 39% beidio ag ateb y cwestiwn. Mae’n bosibl nad oedd dim barn ganddynt yn enwedig os nad ydyn nhw wedi meddwl am y pwnc o’r blaen. Gan fod diffyg ymwybyddiaeth gan lawer o’r ymatebwyr am beth sydd yn bodoli yn barod ar y We yn Gymraeg, efallai nad oedden nhw’n teimlo’n hyderus i rannu eu barn. Yn wahanol i gwestiynau 8 a 9 sydd yn gofyn yn benodol am ‘dair enghraifft’, mae’r cwestiwn hwn yn fwy eang ac felly yn anos i’w ateb. Mae’r cwestiwn hwn yn weddol

agos i'r diwedd hefyd, felly mae'n bosibl bod yr ymatebwyr wedi diflasu gyda'r cwestiynau erbyn hyn. Er bod nifer mawr o ymatebwyr wedi dewis peidio ag ateb y cwestiwn mae hi dal yn ddi-ddorol gweld beth yw barn y rhai sydd gydag ychydig o ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael yn Gymraeg, neu er mwyn gweld a yw pobl yn enwi pethau sy'n debyg i wefannau Cymraeg sy'n bodoli'n barod.

Mae BuzzFeed yn wefan boblogaidd sydd yn derbyn dros 130 miliwn o ymwelwyr y mis.<sup>23</sup> Maen nhw'n galw eu deunydd yn 'newyddion cymdeithasol' gan fod y deunydd wedi cael ei greu i'w rannu ar wefannau cyfryngau cymdeithasol ac i'w ddarllen ar ffonau symudol. Mae BuzzFeed yn fwyaf enwog am eu rhestrau doniol fel '27 Christmas lessons we learned from The Office'<sup>24</sup> a chwisiau fel 'What City Should You Actually Live In'<sup>25</sup> sydd wedi cael eu darllen dros 20 miliwn o weithiau.

### **Cwestiwn 23. Faint ydych chi'n ei wario ar ddeunydd darllen printiedig/electronig bob mis ar gyfartaledd?**

Ymatebion pawb.

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
£0	107	42%
Hyd at £10	93	37%
Rhwng £10 a £20	38	15%
Rhwng £20 a £40	6	2%

<sup>23</sup> <<http://www.wired.co.uk/magazine/archive/2014/02/features/buzzfeed>>.

<sup>24</sup> Gweler <<http://www.buzzfeed.com/samstryker/christmas-lessons-from-dunder-mifflin>> (cyrchwyd ym mis Awst 2014).

<sup>25</sup> Gweler <<http://www.buzzfeed.com/ashleyperez/what-city-should-you-actually-live-in>> (cyrchwyd ym mis Rhagfyr 2014).

Mwy na £40	2	1%
Dim ateb	6	2%

Grŵp 1

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
£0	62	48%
Hyd at £10	49	38%
Rhwng £10 a £20	15	12%
Rhwng £20 a £40	0	0%
Mwy na £40	1	1%
Dim ateb	2	2%

Grŵp 2

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
£0	33	42%
Hyd at £10	29	37%
Rhwng £10 a £20	13	16%
Rhwng £20 a £40	1	1%
Mwy na £40	0	0%
Dim ateb	3	4%

Grŵp 3



	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
£0	12	27%
Hyd at £10	15	34%
Rhwng £10 a £20	10	23%
Rhwng £20 a £40	5	11%
Mwy na £40	1	2%
Dim ateb	1	2%

‘£0’ yw’r ateb mwyaf poblogaidd. Er hynny, nid yw ‘Hyd at £10’ ddim yn bell y tu ôl a dyma’r ateb mwyaf poblogaidd a roddwyd gan atebwyr Grŵp 3. Mae’r ganran o ymatebwyr sydd wedi dweud ‘£0’ 6% yn uwch yng Ngrŵp 1 nag yng Ngrŵp 2, ac mae’r ganran yng Ngrŵp 2 yn 15% yn uwch nag yng Ngrŵp 3. Mae’r ganran o ymatebwyr sydd wedi dweud ‘Hyd at £10’ yn debyg ym mhob grŵp. Mae 36% o Grŵp 3 wedi dweud ‘Rhwng £10 a £20’ neu fwy. Yng Ngrŵp 1 dim ond 13% sydd wedi dweud hynny a dim ond 17% sydd wedi dweud hynny yng Ngrŵp 2. Gan fod 41% o Grŵp 3 mewn swydd lawn amser neu ran amser, byddai hyn yn ei gwneud hi’n debygol bod ganddynt fwy o arian i’w wario ar ddeunydd darllen na phobl yn y grwpiau oedran eraill.

**Cwestiwn 24(a). Sut ydych chi’n cael gafael ar ddeunydd darllen? Roedd modd dewis mwy nag un ateb.**

	<b>Grwp 1</b>	<b>Grwp 2</b>	<b>Grwp 3</b>	<b>Pawb</b>
	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>
Benthg o’r llyfrgell	55 (43%)	40 (51%)	13 (30%)	108 (42%)

Darllen am ddim ar y We	65 (50%)	59 (75%)	34 (77%)	158 (63%)
Prynu o siop llyfrau Cymraeg	32 (25%)	25 (32%)	25 (57%)	82 (33%)
Prynu o siop llyfrau Saesneg	56 (43%)	26 (33%)	21 (48%)	103 (41%)
Prynu o siop arall	19 (15%)	19 (24%)	15 (34%)	53 (21%)
Prynu ar Amazon	67 (52%)	52 (66%)	26 (59%)	145 (56%)
Prynu ar Gwales	1 (1%)	3 (4%)	3 (7%)	7 (3%)
Prynu ar wefannau eraill	11 (9%)	10 (13%)	6 (14%)	27 (11%)
Dim ateb	5 (4%)	3 (4%)	1 (2%)	9 (4%)

‘Darllen am ddim ar y We’ a ‘Prynu ar Amazon’ yw’r ddwy ffordd fwyaf poblogaidd o gael gafael ar ddeunydd darllen.

Mae Amazon yn honni fod ganddynt 21 miliwn o gwsmeriaid ym Mhrydain.<sup>26</sup> Mae hyn yn ei gwneud hi’n debygol bod gan lawer o’r ymatebwyr gyfrif Amazon, yn enwedig y rhai hŷn sydd â cherdyn credyd neu ddebyd. Rhwng yr wybodaeth hon a’r ystadegau isod, dylai hyn roi rheswm i gwmnïau cyhoeddi hyrwyddo’r ffaith eu bod

---

<sup>26</sup> Gweler <<http://services.amazon.co.uk/services/amazon-local/why-amazon-local.html>> (cyrchwyd ym mis Tachwedd 2014).

yn gwerthu llyfrau Cymraeg ar Amazon. Nid yw'r rhai sydd â chyfrif Amazon dim ond rhai cliciau i ffwrdd o archebu llyfr.

Mae'r nifer sy'n defnyddio'r llyfrgell yng Ngrŵp 3 lawer yn is nag yn y ddau grŵp arall. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd fod mynd i'r llyfrgell yn cyd-fynd ag arferion academiaidd disgyblion ysgol a myfyrwyr academiaidd.

Mae'r nifer sydd yn prynu ar Amazon yn fwy ymhlith atebwyr Grŵp 2 a 3. Un rheswm am hyn yw ei bod hi'n debygol fod gan fwy ohonynt gardiau credyd neu ddebyd sydd yn ei gwneud hi'n haws archebu ar Amazon.

Mae'r ystadegau a gasglwyd, ynghyd â'r wybodaeth a gafwyd yn y grwpiau ffocws, yn dangos nad oes yn agos i ddim ymwybyddiaeth gan bobl ifanc o Gwales. Mae hyn yn rhoi her enfawr i Gwales os oes ganddyn nhw unrhyw ddiddordeb mewn denu cwsmeriaid ar-lein. Mae gan y Cyngor Llyfrau dipyn o dasg dros y tymor hir i greu brand sydd yn mynd i ddenu cwsmeriaid neu'n mynd at lle mae'r cwsmeriaid yn barod, fel Amazon, a'i gwneud hi'n glir fod llyfrau Cymraeg ar gael yno i'w prynu.

Mae'r niferoedd sy'n 'Prynu o siop llyfrau Cymraeg' yn wahanol iawn ym mhob grŵp. Dyma'r trydydd opsiwn mwyaf poblogaidd yng Ngrŵp 3 gyda 57% o atebwyr yn dweud eu bod yn gwneud hyn. Dyma'r pumed opsiwn mwyaf poblogaidd gydag atebwyr Grŵp 1 a Grŵp 2. Dim ond 25% o atebwyr Grŵp 1 oedd yn gwneud, a dim ond 32% o Grŵp 2.

Ceisiwyd gweld os mai y Cymry a oedd yn byw y tu allan i Gymru oedd un o'r rhesymau am y ganran is o bobl oedd yn 'Prynu o siop llyfrau Cymraeg' gan nad oes dim siopau llyfrau Cymraeg y tu allan i Gymru. Roedd 2% o Grŵp 1, 27% o Grŵp 2 a 23% o Grŵp 3 yn byw y tu allan i Gymru. Er hynny, roedd 70% o'r Cymry a oedd yn byw y tu allan i Gymru wedi dweud eu bod yn 'Prynu o siop llyfrau Cymraeg'. Mae hyn 13% yn uwch nag atebwyr cyfartalog Grŵp 3. Dim ond 3% yn is

na'r ymatebwyr cyfartalog oedd Cymry sy'n byw tu allan i Gymru yng Ngrŵp 2 gyda 29% ohonynt yn dweud eu bod yn 'Prynu o siop llyfrau Cymraeg'. Mae hyn yn dangos nad oedd gadael i'r Cymry sydd yn byw y tu allan i Gymru gymryd rhan wedi bod yn un o'r rhesymau pam mae'r canran yn is.

**Cwestiwn 25. Faint o amser ydych chi'n ei dreulio yn darllen deunydd electronig yn eich amser hamdden bob wythnos ar gyfartaledd?**

Ymatebion pawb.

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Hyd at 2 awr	118	47%
Rhwng 2 a 7 awr	95	38%
Mwy na 7 awr	24	10%
Dim ateb	15	6%

Grŵp 1

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Hyd at 2 awr	71	55%
Rhwng 2 a 7 awr	38	29%
Mwy na 7 awr	14	11%
Dim ateb	6	5%

Grŵp 2

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Hyd at 2 awr	34	43%

Rhwng 2 a 7 awr	32	41%
Mwy na 7 awr	6	8%
Dim ateb	7	9%

### Grŵp 3

	Nifer	Canran
Hyd at 2 awr	13	30%
Rhwng 2 a 7 awr	25	57%
Mwy na 7 awr	4	9%
Dim ateb	2	5%

### 26. Beth yw eich barn ar y we ac e-lyfrau yn Gymraeg? Sut gellir eu gwella?

	Nifer	Canran
Angen mwy o ddewis ac amrywiaeth ar y we	89	35%
Angen mwy o e-lyfrau	50	20%
Ddim yn ymwybodol o beth sydd ar gael	17	7%
Angen mwy o hysbysebu	11	4%
Dim ateb	98	39%

Mae tua'r un faint o ymatebwyr wedi dewis peidio ag ateb y cwestiwn hwn ag sydd wedi peidio ag ateb cwestiwn 22. Mae'r cwestiynau yn weddol debyg ac felly

byddai'n gwneud synnwyr bod rhesymau tebyg ganddynt am beidio ag ateb y ddau gwestiwn.

Mae'r sylwadau 'Angen mwy o hysbysebu' a 'Ddim yn ymwybodol o beth sydd ar gael' yn cyd-fynd â'i gilydd. Er ei bod hi'n bosibl dyfalu mai un o'r prif resymau pam y gwnaeth gymaint o bobl beidio ag ateb y cwestiwn yw eu diffyg ymwybyddiaeth o beth sydd ar gael. Mae 11% wedi gwneud yn glir nad ydynt mor ymwybodol o beth sydd yn bodoli ag y gallent fod.

### Cwestiwn 27. Pa weithgareddau ydych chi'n eu gwneud yn eich amser

hamdden? Roedd modd dewis mwy nag un ateb.

	<b>Grwp 1</b>	<b>Grwp 2</b>	<b>Grwp 3</b>	<b>Pawb</b>
	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>
Chwaraeon	84 (65%)	50 (63%)	22 (50%)	156 (62%)
Cerddoriaeth	73 (57%)	38 (48%)	25 (57%)	136 (54%)
Gwyllo ffilmiau/teledu	100 (78%)	69 (87%)	39 (89%)	208 (83%)
Chwarae gemau	61 (47%)	27 (34%)	12 (27%)	100 (44%)
Celf a chrefft	28 (22%)	12 (15%)	14 (32%)	54 (21%)
Pori ar y We	95 (74%)	56 (71%)	33 (75%)	184 (73%)
Arall	16 (12%)	1 (1%)	0 (0%)	17 (7%)
Dim ateb	2 (2%)	3 (4%)	1 (2%)	6 (2%)
	<b>Merched</b>	<b>Bechgyn</b>		
	<b>Nifer (%)</b>	<b>Nifer (%)</b>		
Chwaraeon	74 (54%)	80 (71%)		

Cerddoriaeth	76 (55%)	59 (53%)
Gwyllo ffilmiau/teledu	121 (88%)	86 (77%)
Chwarae gemau	35 (25%)	64 (57%)
Celf a chrefft	44 (32%)	9 (8%)
Pori ar y We	103 (75%)	81 (72%)
Arall	7 (5%)	10 (9%)
Dim ateb	3 (2%)	3 (3%)

Dewiswyd gofyn y cwestiwn hwn er mwyn cael darlun llawnach o hobiau eraill pobl ifanc. Nodwyd ym mrieff Cyngor Llyfrau Cymru fod ganddyn nhw ddiddordeb mewn gwybod pwysigrwydd darllen o gymharu ag arferion hamdden arall. Efallai y byddai wedi bod yn syniad da cynnwys opsiwn 'Darllen' er mwyn gallu ei gymharu â'r opsiynau eraill. Mae'r atebion yn dangos pa rai yw'r prif weithgareddau sy'n hawlio sylw pobl ifanc. 'Gwyllo ffilmiau/teledu' a 'Pori ar y We' yw'r ddau weithgaredd hamdden mwyaf poblogaidd ym mhob un grŵp, yn ferched a bechgyn. Dengys hynny faint o gystadleuaeth sydd gan weithgaredd fel darllen, ond dengys hefyd beth yw'r ffordd orau o geisio marchnata deunydd printiedig neu e-lyfrau.

## **6. Y Grwpiau Ffocws**

### **Grŵp 1 (15-18 oed)**

Lluniwyd y cwestiynau ar gyfer y grŵp ffocws cyntaf ar ôl edrych ar ymatebion disgyblion Ysgol Brynhyfryd i'r holiadur. Nid oedd pawb a gwblhaodd yr holiadur yn y grŵp ffocws felly nid oedd yn bosibl i'r ymatebion i'r holiadur gyfateb yn union i'r ymatebwyr. Gofynnwyd rhai cwestiynau nad oeddynt wedi eu llunio o flaen llaw gan ddilyn trywydd naturiol a diddorol y sgwrs.

Gofynnwyd a oedd y cyfranogwyr yn darllen llyfrau i bobl ifanc neu i oedolion. Roedd hi'n anodd cynnal sgwrs am ddarllen llyfrau gan nad oedd neb yn y grŵp yn dweud bod darllen llyfrau yn rhywbeth yr oeddent yn mwynhau ei wneud yn eu hamser hamdden.

Trafodwyd diffyg amrywiaeth o fewn y farchnad lyfrau Gymraeg i bobl ifanc, gan fod nifer wedi nodi hyn pan oeddent yn ateb yr holiadur. Dywedodd un bod 'gormod o'r un awduron, a gormod o Bethan Gwanas'. Teimlent bod gormod o lyfrau rhy debyg yn cael eu hysgrifennu gan mai'r un awduron oedd yn ysgrifennu i bobl ifanc.

Gofynnwyd cwestiwn yn benodol am lyfrau a oedd wedi cael eu haddasu'n ffilmiau ac yn rhaglenni teledu gan fod rhai wedi sôn amdanynt yn eu hymatebion. Dywedodd un bachgen nad oedd yn darllen llawer: 'Rydw i'n darllen llyfrau *The Hunger Games* [gan Suzanne Collins]. Wnes i wylïo'r ffilm gyntaf a wedyn dechrau darllen y gyfres felly roeddwn i wedi darllen yr ail lyfr cyn yr ail ffilm.' Roedd yn amlwg ei fod wedi cael ei ysbrydoli i ddarllen ar ôl gweld addasiad o'r llyfr.

Roedd un o'r merched a oedd yn astudio Lefel A Cymraeg wedi bod yn darllen llyfrau Cymraeg, hen a modern, ac wedi mwynhau *Blasu* gan Manon Steffan Ros yn fawr iawn. Nid oedd hi ddim yn amlwg a fyddai wedi dod ar draws y llyfr pe na byddai wedi ei ddarllen yn y dosbarth.



Nid oedd aelodau'r grŵp yn fwy tebygol o ddewis llyfr Cymraeg nag oeddent o ddewis llyfr Saesneg ond roeddent yn fwy tebygol o fynd i siop llyfrau Saesneg fel WH Smith. Roedd un person yn fwy tebygol o ddefnyddio'r llyfrgell er mwyn edrych am lyfr Cymraeg i'w ddarllen.

Nid oeddent yn darllen llyfrau o lyfrgell yr ysgol heblaw bod rhaid iddynt ar gyfer eu gwaith ysgol.

Roedd nifer fawr o'r grŵp yn darllen papur newydd y *Daily Post* a phapurau bro gan eu bod yn y tŷ ac wedi eu prynu gan eu rhieni. Nid oedd y mwyafrif o'r grŵp yn dewis darllen y newyddion. Roedd un yn darllen y newyddion ar wefan y BBC yn Saesneg fel arfer. Roedd weithiau yn darllen y wefan yn Gymraeg ond roedd 'mwy o wybodaeth yn y fersiwn Saesneg oherwydd dydyn nhw ddim yn cyfieithu bob darn.'

Tipyn o syndod oedd nad oedd neb yn y grŵp ffocws ym Mrynhyfryd yn darllen Golwg360. Dywedodd un cyfranogwr y 'dylai bod mwy o hysbysebu am Golwg360. Does neb yn gwybod amdano fo'. Pan ofynnwyd i'r grŵp sut y dylid mynd ati i'w hysbysebu orau ymhlith pobl ifanc, cytunai'r grŵp mai hysbysebu ar Facebook ac ar y teledu fyddai fwyaf tebygol o ddal eu sylw.

Nid oedden nhw ddim yn debygol o drafod deunydd darllen o unrhyw fath gyda'u ffrindiau wyneb yn wyneb nac ar-lein, boed yn llyfr neu'n wefan. Ar wefannau cyfryngau cymdeithasol roeddent yn fwy tebygol o rannu fideos o wefannau fel Vine a YouTube neu luniau, yn enwedig rhai doniol.

Roedd y disgyblion ym Mlwyddyn 10 i gyd yn fwy tebygol o ddefnyddio Facebook yn Saesneg. Gan fod eu ffrindiau, neu'r tudalennau y maent yn eu hoffi, yn postio yn Saesneg roeddent yn gweld Facebook fel gwefan Saesneg. Roedd eu ffrindiau Cymraeg yn postio yn Saesneg er mwyn gwneud yn siŵr bod pob ffrind yn deall. Dywedodd un nad oedd 'dim pwynt postio'n Gymraeg os mai dim on 40% o

ffrindiau sy'n mynd i ddeall'. Roedd y ddau aelod hŷn o'r grŵp yn fwy tebygol o gyfathrebu yn Gymraeg ar y wefan.

Nid oedd llawer o'r bechgyn yn enwedig, yn defnyddio Twitter. Dywedodd un cyfranogwr ei fod yn trydar dros hanner yr amser yn Gymraeg a dywedodd cyfranogwr arall ei fod yn dilyn sêr teledu Cymraeg fel Tudur Owen ar y wefan.

Trafodwyd eu barn am y cyfryngau Cymraeg yn gyffredinol. Mae gan Radio Cymru slot min nos o'r enw C2 sydd yn cynnwys rhaglenni penodol ar gyfer pobl ifanc. Nid oedd neb yn y grŵp yn gwrando ar C2, er bod ambell un yn gwybod amdano. Y prif reswm gan un aelod o'r grŵp a wyddai am C2 dros beidio â gwrando oedd am nad oedd yn hoffi rhai o'r cyflwynwyr. Nid oedd tua tri chwarter y grŵp 'ddim yn gwybod beth yw C2'. Roedd un cyfranogwr yn gwrando ar Radio Cymru oherwydd bod ei rieni yn gwrando ar yr orsaf yn y car, ond ni allai enwi unrhyw raglenni roedd yn eu mwynhau ar yr orsaf.

Pan ofynnwyd a oeddynt yn gwylio rhaglenni ar S4C, atebodd un ei fod yn gwylio 'Rownd a Rownd', rhaglen sebon sydd â llawer o gymeriadau ifanc, ac roedd dau yn gwylio 'Y Lle', cyfres gylchgrawn i bobl ifanc.

Ni allai neb yn y grŵp feddwl am wefannau Cymraeg yr oedden nhw wedi eu mwynhau ac wedi dychwelyd atynt eto.

Daeth yn amlwg ar ddechrau'r drafodaeth bod diffyg ymwybyddiaeth dybryd ymhlith y cyfranogwyr o'r deunydd cyfryngol sy'n bodoli yn y Gymraeg. Golygai hyn fod trafod pwyntiau penodol yn anodd gan nad oedd disgwyl iddynt fod â barn ar bethau na wyddent ddim oll amdanynt. Wedi dweud hynny, roedd yna wahaniaeth rhwng y disgyblion ym mlwyddyn 10 a'r ddau ddisgybl ym mlwyddyn 13 a oedd yn astudio Lefel A Cymraeg. Roedd gan y ddwy hŷn fwy o ymwybyddiaeth o'r cyfryngau Cymraeg. Byddai bod yn ymwybodol o'r cyfryngau Cymraeg yn

ddefnyddiol iawn ar gyfer eu gwaith ysgol ac efallai yn rhan o'r cwrs, felly efallai mai dyma un o'r prif resymau pam eu bod hwy yn fwy ymwybodol o'r cyfryngau Cymraeg. Yn ogystal, gellid tybio bod ganddynt ryw faint o ddiddordeb mewn rhai pethau Cymraeg er mwyn dewis y cwrs Lefel A yn y lle cyntaf.

### **Grŵp 2 (19-21 oed)**

Roedd y grŵp hwn o Gymry Cymraeg ifanc yn fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd a oedd yn cymdeithasu'n Gymraeg ac yn aelodau o gymdeithasau Cymraeg. Llenwodd y cyfranogwyr yr holiaduron yr un pryd a'r cyfweliad wyneb yn wyneb, felly roedd yn bosibl dweud beth oedd atebion y grŵp. Er hynny, nid oedd yn bosibl gwybod pwy atebodd pa holiadur oherwydd atebwyd y cwestiynau yn ddi-enw.

Atebodd y mwyafrif na chaent lawer o gyfle i ddarllen yn eu hamser hamdden. Roedd y rhai nad oeddent yn darllen yn eu hamser hamdden ar y pryd yn meddwl y byddent yn darllen mwy yn y dyfodol. Dywedodd un cyfranogwr: 'Drwy'r ysgol a'r brifysgol rydych chi'n gorfod darllen ond falle ar ôl gadael ga i gyfle i gael mwy o fwynhad wrth ddarllen'. Dywedodd cyfranogwr arall: 'Dwi ddim ond yn cael cyfle i ddarllen pethau dwi'n mwynhau yn ystod y gwyliau', sydd eto'n eithaf dadlennol a nodweddiadol o fyfyrwyr sy'n gorfod darllen llawer ar gyfer eu gwaith academiaidd.

Trafodwyd pa lyfrau Cymraeg roedden nhw wedi'u mwynhau. Enwyd *Mr Perffaith* gan Joanna Davies gan yr unig gyfranogwr a ddywedodd ei bod yn darllen Cymraeg yn weddol aml yn ei hamser hamdden. Dywedodd dau gyfranogwr arall eu bod wedi mwynhau *Martha Jac a Sianco* gan Caryl Lewis a *Hi yw fy ffrind* gan Bethan Gwanas. Er ei bod yn bosibl eu bod wedi darllen y llyfrau hyn yn ddiweddar, nid oedd ganddynt unrhyw ymwybyddiaeth o lyfrau Cymraeg mwy diweddar. Roedd y grŵp yn cytuno nad oeddent yn darllen llyfrau yn benodol i bobl

yn eu harddegau ond yn mwynhau darllen llyfrau gyda chymeriadau tua'r un oed â nhw.

Roedd nifer o'r cyfranogwyr wedi nodi wrth ateb yr holiadur bod 'angen mwy o amrywiaeth' yn y math o lyfrau Cymraeg sydd ar gael. Trafodwyd y mater hwn ac roedd y grŵp yn cytuno bod cael amrywiaeth yn bwysig a bod 'angen mwy o lyfrau' Cymraeg yn gyffredinol. Y farn gyffredinol oedd fod 'llyfrau Saesneg yn haws i'w cael', ond roeddent hefyd yn meddwl nad oeddent yn gwybod beth yn union oedd ar gael. Meddai un, 'falle fod ni ddim yn gwybod beth sydd ar gael'. Dywedodd un cyfranogwr: 'dwi'm yn gwybod os oes na ffasiwn beth ag e-lyfrau Cymraeg' wrth drafod yr angen am fwy o ddewis. Mae hyn yn awgrymu'n gryf iawn fod ymwybyddiaeth rhai pobl ifanc sydd yn byw eu bywyd trwy gyfrwng y Gymraeg o beth sydd ar gael yn yr iaith yn barod yn eithaf prin a chul.

Dim ond un aelod o'r grŵp oedd 'erioed wedi clywed am Gwales'. Roedd hyn oherwydd ei bod wedi defnyddio Gwales pan oedd hi'n gweithio mewn siop llyfrau Cymraeg. Dywedodd un ddarllenwraig frwd, ond a oedd yn darllen llyfrau Saesneg yn unig, 'Pe byddai popeth oedd ar Gwales ar Amazon bydde fo'n haws ffeindio llyfrau'. Roedd y diffyg ymwybyddiaeth o fodolaeth Gwales yn y grŵp ffocws hwn yn cadarnhau canlyniadau cwestiynau 17(b) 24(a) yn yr holiadur.

Roedd pawb yn y grŵp yn defnyddio gwefan newyddion y BBC yn Saesneg ac roeddent i gyd yn defnyddio'r ap. Gofynnwyd a oedd rheswm pam eu bod yn dewis darllen y newyddion yn Saesneg ar y BBC yn hytrach nag yn Gymraeg ar wefan Cymru Fyw neu ar wefan Golwg360. Dywedodd un cyfranogwr mai un rheswm pam yr oedd yn darllen gwefan BBC News oedd bod 'gwefan Gymraeg y BBC dim ond yn sôn am Gymru'. Roedd y grŵp yn gytûn pan ddywedodd un cyfranogwr 'Ni'n defnyddio'r ap felly mae'n haws a does dim ap Cymraeg'. Ers

hynny mae ap BBC Cymru Fyw wedi ei lansio – ap sy'n canolbwyntio ar newyddion Cymru'n unig.

Ni wyddai'r mwyafrif o'r grŵp bod Golwg360 yn cynnwys storïau newyddion am bynciau ehangach na Chymru, ond roedd rhai ohonynt wedi clicio ymlaen ar rai erthyglau Golwg360 drwy Twitter. Cytunid pe byddai ap Golwg360 yn bodoli y byddent yn ei lawrlwytho ac yn ei ddefnyddio.

Dywedodd nifer o'r cyfranogwyr eu bod yn darllen papurau bro. Dywedodd un cyfranogwr fod 'papur bro yn rhywbeth braf i'w ddarllen pan rydych chi'n dod adref o'r brifysgol', a dywedodd un arall ei fod yn 'dda er mwyn gweld beth sy'n mynd ymlaen yn eich ardal leol a gweld lluniau o bobl rydych chi'n adnabod'. Nid oedd y grwp yn meddwl y byddent yn defnyddio gwefan papur bro. Er hynny, hoffent y syniad o gael gwefan gyda digwyddiadau eu hardal leol fel cyfrif Twitter 'Pobl Caerdydd' oherwydd byddai hyn yn fwy addas a defnyddiol ar gyfer pobl ifanc.<sup>27</sup>

Pan oeddent yn darllen yr un deunydd â'u ffrindiau byddent yn debygol o drafod y testun, ond ar y cyfan nid oeddent yn debygol o argymhell deunydd darllen i'w gilydd. Rhoddwyd dau reswm gan ddau gyfranogwr gwahanol am hynny: 'Os oedden ni'n darllen mwy efallai bydden ni yn trafod mwy' a 'dydw i ddim yn meddwl fod ein chwaeth mewn llyfrau yr un peth beth bynnag'.

Roedd y mwyafrif o'r myfyrwyr yn eu blwyddyn olaf yn y brifysgol, felly roeddent yn cytuno ei bod yn 'anodd ffeindio amser i ddarllen, yn enwedig y flwyddyn yma'.

---

<sup>27</sup> Gweler <<http://poblcaerdydd.com/>>.

Gofynnwyd sut oedden nhw'n dod o hyd i lyfr newydd. Dywedodd un cyfranogwr: 'Dwi'n hoffi darllen cyfresi felly wna i ffeindio cyfres wedyn darllen un ar ôl y llall'. Dywedodd cyfranogwr arall, fel nifer o ymatebwyr yr holiaduron, bod teledu a ffilmiau yn dylanwadu ar eu dewis o ddeunydd darllen: 'Rydw i ar ganol darllen cyfres George R.R. Martin ar ôl gwyllo 'Game of Thrones'. Rydw i'n fwy tebygol o ddarllen llyfrau os ydyn nhw wedi cael eu haddasu ar gyfer y teledu neu ffilmiau'. Roedd gweddill y grŵp yn cytuno eu bod yn fwy tebygol o ddarllen llyfr os oedd cyfres deledu neu ffilm yn seiliedig arno. Roedd y rhan fwyaf ohonynt am ddarllen y llyfr gyntaf, gydag un person yn dweud 'fyddai dim mynedd gen i i ddarllen y llyfr ar ôl gwyllo'r ffilm'.

Un ffordd arall roedd y cyfranogwyr yn darganfod llyfrau newydd oedd ar Amazon. Mae nhw'n argymhell 'Similar items to...' o dan bob un llyfr, felly os oedd yna llyfr roedden nhw'n ei hoffi roedd y wefan yn argymhell pethau tebyg. Dywedodd un cyfranogwr fod yna 'gymaint o wybodaeth am y llyfr ar Amazon. Does dim byd fel'na yn Gymraeg.' Roedd un cyfranogwr 'wedi bod yn prynu llyfrau Cymraeg ar eBay'. Dywedodd cyfranogwr arall ei fod yn 'clywed am lyfrau pan mae 'na wobrau fel gwobrau'r Eisteddfod' a dywedodd un arall 'os oes 'na llyfr yn cael ei ganmol ar raglen fel Wedi 7 efallai byddwn i'n edrych amdano wedyn'.

Trafodwyd siopau llyfrau Cymraeg a bu trafodaeth nad oedd yna siop llyfrau Cymraeg amlwg yng Nghaerdydd, er nad oedd yn glir faint y byddent yn ei defnyddio pe bai un yn bodoli. Barn un cyfranogwr oedd fod 'siopau llyfrau Saesneg wedi eu trefnu yn daclus mewn adrannau fel ffuglen a ffeithiol. Mae siopau llyfrau Cymraeg yn fwy anniben'. Dywedodd cyfranogwr arall fod gan siopau llyfrau Cymraeg 'lot o hunangofiannau. Sai'n beco am rhan fwyaf ohonyn nhw'.

Trafodwyd y rhyngrwyd yn Gymraeg a gofynnwyd a oeddent yn cyfathrebu yn Gymraeg ar-lein. Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn defnyddio gwefannau ac aps Buzzfeed a'r Daily Mail, sydd â llawer o newyddion am enwogion. Nid oeddent yn defnyddio llawer o wefannau Cymraeg. Dywedodd un ei bod yn defnyddio'r wefan Ffrwti.com sydd yn casglu'r storïau Cymraeg mwyaf poblogaidd ar gyfryngau cymdeithasol a blogiau.

Er hynny, roeddent i gyd yn cyfathrebu yn Gymraeg ar wefannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter. 'Fyddwn i byth yn dweud dim byd yn Saesneg,' meddai un cyfranogwr. Maent yn dilyn Cymry Cymraeg enwog ar Twitter fel sêr rhaglenni S4C a chwaraewyr rygbi ac roedd y grŵp yn gytûn y 'byddai'n dda cyfieithu Twitter i'r Gymraeg' fel sydd wedi digwydd gyda Facebook .

Trafodwyd y cyfryngau Cymraeg fel arall. Nid oeddent yn gwylio rhaglenni sydd yn benodol i bobl ifanc fel 'Y Lle' ac 'Ochr 1' nac yn gwrando ar C2 yn aml, ond maent yn mwynhau pan fyddant yn gwrando'n achlysurol.

Dim ond un aelod o'r grŵp oedd yn darllen e-lyfrau a hi oedd y darlennydd mwyaf brwd yn y grŵp. Er hyn, anaml y byddai'n darllen llyfrau Cymraeg oherwydd ei bod yn fwy tebygol o ddod ar draws llyfrau Saesneg ar Amazon.

O'u cymharu â Grŵp 1, roeddent yn fwy ymwybodol o'r cyfryngau Cymraeg ond efallai ddim cymaint â'r disgwyl o ystyried eu bod yn cymdeithasu trwy'r Gymraeg yn bennaf. Nid oedd gan neb lawer i'w ddweud am lyfrau Cymraeg; nid oeddent yn defnyddio cyfryngau Cymraeg fel Radio Cymru, na gwefan newyddion y BBC yn Gymraeg, ac nid oedd y mwyafrif yn defnyddio Golwg360 o gwbl. Nid oeddent yn defnyddio unrhyw wefannau Cymraeg heblaw am un person a soniodd am Ffrwti.com.

### Grŵp 3 (22-25 oed)

Mae'r grŵp hwn yn eithaf tebyg i Grŵp 2 gan eu bod wedi astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a dim ond yn cymdeithasu yn Gymraeg. Ar y llaw arall roedd y grŵp hwn, yn wahanol i'r ddau arall, yn ymwybodol iawn o'r hyn sy'n bodoli yn barod yn Gymraeg. Roedd hi'n bosibl edrych ar ymatebion rhai o'r grŵp gan eu bod wedi ymateb i'r holiadur yr un pryd, felly roedd hi'n bosibl llunio cwestiynau ar sail yr ymatebion hynny.

Trafodwyd beth a wnâi i'r grŵp ddymuno prynu llyfr. Dywedodd un cyfranogwr: 'Mae'r clawr yn bwysig ond fel arfer yr awdur sy'n denu fi at y llyfr. Os oes llyfr newydd gan awdur dwi'n hoffi wedyn wnâi edrych ar y llyfr'. Roedd yn well gan un cyfranogwr lyfrau ffeithiol ac roedd yn fwy tebygol o gael ei ddylanwadu gan 'rywun yn canmol y llyfr ar Twitter neu yn y cyfryngau fel *Barn* neu *Golwg*'. Nid oedd un cyfranogwr ddim yn cael ei ddylanwadu gan y cyfryngau, 'Mae'n bwysicach i fi, os yw ffrind neu teulu yn argymhell rhywbeth'.

Cymharwyd y gwahaniaeth rhwng beth oedd yn eu dylanwadu yn y Gymraeg ac yn y Saesneg: 'Yn Saesneg fi'n fwy tebygol o ddarllen *classics*. Dydi argymhellion ddim yn gwneud gymaint o wahaniaeth'. Dywedodd cyfranogwr arall: 'Mae 'na fwy o ddewis yn Saesneg ond mae'n syndod faint o wahanol lyfrau sydd yna yn Gymraeg'. Dywedodd cyfranogwr arall: 'Mae 'na dipyn o bopeth ond mae'n anodd dod ar draws hen lyfrau Cymraeg.' Ar y cyfan roedd y grŵp yn meddwl bod dewis da o lyfrau Cymraeg i'w cael ond eu bod yn aml yn dymuno cael gafael ar hen lyfrau ac nad yw'r dewis ar gael mewn siopau llyfrau Cymraeg fel mewn rhai Saesneg.



Datblygodd hyn yn sgwrs am ddefnyddio'r We i gael gafael ar lyfrau: 'Rydw i'n prynu llyfrau newydd Cymraeg mewn siop ond os ydyn nhw'n hen lyfrau wedyn wna i brynu llyfrau ail-law o Amazon gan eu bod nhw'n rhatach'.

Roedd yn ddiddorol gwranddo ar gyfranogwyr y grŵp hwn yn trafod Gwales am nad oedd aelodau'r ddau grŵp arall yn ymwybodol o'r wefan. 'Mae gwefan Gwales yn henffasiwn ac yn anodd i'w defnyddio. Mae'r categorïau yn rhy eang. Yn lle cael 'Llyfrau i oedolion' buasai rhannu nhw wrth *genre* yn well'.

Dywedodd un cyfranogwr ei fod wedi gweld hysbysebion am Gwales ar Facebook pan nad oedd erioed wedi clywed am y wefan o'r blaen. Cafodd ei ddylanwadu i ymweld â'r wefan oherwydd yr hysbysebion hynny.

Dywedodd cyfranogwr sydd yn defnyddio Amazon i brynu llyfrau ail-law y 'byddai'n dda cael rhywun ar Amazon sy'n deall llyfrau Cymraeg oherwydd maen nhw'n aml yn cael eu prisio yn anghywir gan bod y gwerthwyr yn meddwl eu bod nhw'n llyfrau prinach nag ydyn nhw'.

Cafodd gwefan Sadwrn, sydd yn gwerthu llyfrau, CDs a DVDs Cymraeg, glod gan fod ganddo ddyluniad mwy modern ac 'mae gwefan Sadwrn yn well o ran y ffordd maen nhw wedi rhannu y pethau maen nhw'n gwerthu. Mae'n haws i'w defnyddio.'<sup>28</sup>

Roedd un cyfranogwr yn mwynhau darllen Cymraeg yn fwy na Saesneg ac yn aml yn darllen yn ei amser hamdden. Mae'n well gan y cyfranogwr lyfrau *genre* fel rhai trosedd, ffantasi a ffuglen wyddonol ac mae'n credu fod 'angen marchnata llyfrau yn ôl *genre* yn lle galw 'llyfrau Cymraeg' yn *genre* ynddo'i hun. Dydi pobl fyddai â diddordeb yn y llyfrau yna ddim yn dod ar eu traws wedyn. Mae llyfrau trosedd yn

---

<sup>28</sup> Gweler <<http://www.sadwrn.com/cym/>>.

boblogaidd yn Saesneg ac mae 'na rai Cymraeg da, er enghraifft darllenais lyfr da gan Geraint V. Jones, ond does dim llawer o bobl yn gwybod am y llyfrau yna.'

Roedd y grŵp yn meddwl bod hyrwyddo llyfrau ar Twitter yn syniad da. Cafodd Y Lolfa ganmoliaeth gan eu bod yn trydar yn aml. Dywedodd un cyfranogwr yr hoffai weld mwy o sgwrsiau am lyfrau ar y wefan gan awgrymu y 'dylai llyfrau gael hashnod'.

Cafodd Radio Cymru ganmoliaeth hefyd am hybu llyfrau: 'Mae'n braf gwrando ar rywun yn darllen rhan o lyfr ar Radio Cymru.' Dywedodd un cyfranogwr: 'Dwi'n mwynhau gwrando ar raglen Tudur Owen ar Radio Cymru ac mae Bethan Gwanas yn trafod llyfr fel rhan o'r Clwb Darllen.' Mae sgwrs ar Twitter fel arfer yn cyd-fynd â'r drafodaeth ar y radio.

Trafodwyd beth yn eu barn nhw, oedd y ffordd orau i gael pobl ifanc i glywed am lyfrau. Dyma un sylw a gafwyd: 'Mae'n anodd gwybod sut i gyrraedd pobl ifanc. Yn aml mae o fel 'preaching to the converted'. Mewn byd o iPads a XBoxes mae'n anodd i'r farchnad Saesneg hefyd siŵr o fod.'

Trafodwyd beth oedd ar goll yn y farchnad Gymraeg. 'Byddai'n dda cael papur cenedlaethol i Gymru, Cymraeg neu Saesneg,' meddai un cyfranogwr ond dywedodd ei fod yn darllen *Y Cymro* weithiau. Dywedodd cyfranogwr arall: 'Dwi erioed wedi darllen *Y Cymro*. Doeddwn i ddim yn deall fod o'n dal i fodoli.' Roedd un cyfranogwr yn mwynhau darllen ac ysgrifennu darnau llenyddol: 'Byddai'n dda cael rhywbeth gan fod *Tu Chwith* ddim o gwmpas dim mwy. Dydw i ddim yn meddwl fod 'Y Neuadd' yn teimlo yr un peth'. Un o'r rhesymau dros ddweud hynny oedd am ei bod yn teimlo fod 'Y Neuadd' yn cael ei weld fel rhywbeth pwysicach ac uchel-ael, a dywedodd ei bod yn cael mwy o ymateb gan bobl pan oedd darn wedi cael ei gyhoeddi ganddi mewn print.

Er hynny, roedd y grŵp yn deall bod yna resymau pam nad oedd y pethau hyn yn bodoli: ‘Mae ’na ddirywiad yn y byd cyhoeddi papurau newydd yn brintiedig ym mhob man’, ond roeddent yn poeni bod y ffaith nad oedd papur newydd dylanwadol am Gymru i’w gael yn Gymraeg na Saesneg yn golygu bod y ‘Cymry ddim yn gwybod llawer am wleidyddiaeth Cymru oherwydd mae nhw’n cael eu newyddion i gyd o Lundain.’

Cafodd gwefan Ffrwti.com ganmoliaeth gan ei bod ‘yn dangos beth sydd yn trendio yn Gymraeg ond does dim cymaint â hynny o bobl yn gwybod amdano fo. Dim ond y cylchoedd cul Cymraeg.’ Roedd cyfranogwr arall yn cytuno â’r pwynt hwn: ‘Mae llawer o bobl yn dilyn Ffrwti ond dydi o ddim yn teimlo fel bod gymaint o ddylanwad ganddyn nhw â byswn i wedi disgwyl’. Teimlent bod llawer o gyffro wedi bod o gwmpas y wefan i ddechrau ond bod hynny wedi cilio a bod hynny oherwydd bod llai o amser gan grëwyr y wefan.

Yn wahanol i’r ddau grŵp ffocws arall, roedd yn bosibl trafod gwefan Golwg360 hefyd. Nid oedd un cyfranogwr yn hoffi’r wefan: ‘Dwi’n meddwl fod Golwg360 yn uffernol o wael. Mae’n edrych fel mai postio datganiadau o’r wasg mae nhw neu ailysgrifennu storïau o wefannau Saesneg. Does na byth newyddion gwahanol i unrhyw le arall ac mae o’n well ar wefannau eraill fel arfer. Yn aml does na ddim llawer o gig ar y storïau, gormod o dweets wedi eu troi mewn i stori.’

Nid oedd barn y cyfranogwyr eraill ddim mor gryf: ‘Dwi’n meddwl fod Golwg 360 yn iawn ond weithiau mae o’n wallus.’ Dywedodd cyfranogwr arall: ‘Does gen i ddim diddordeb yn y newyddion felly rydw i’n darllen y blogiau celfyddydau a dwi’n mwynhau nhw.’ Roedd un cyfranogwr yn ‘teimlo bod gwefan Golwg360 dim ond yn trafod y fro Gymraeg. Os oedd na rywbeth wedi digwydd yn Aberystwyth a rhywbeth wedi digwydd yn Trallwng, dim ond yr un yn Aberystwyth a

fyddai ar y wefan'. Roedd un cyfranogwr am weld mwy o amrywiaeth o ran cyflwyno stori: 'Byddwn i'n hoffi gweld mwy o fideos neu bethau sydd yn dangos nhw tu allan i'r swyddfa oherwydd mae'n teimlo fel eu bod nhw ddim yn gadael eu swyddfeydd i gael stori.' Nid oedd un cyfranogwr ddim yn meddwl bod newyddidurwyr y wefan yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd oedd ganddynt eisoes: 'Mae 'na botensial ganddyn nhw. Bydde nhw'n gallu cyfweld unrhyw un Cymraeg gan fod pawb yn adnabod pawb.' Roedd un cyfranogwr yn meddwl y 'byddai'n well os oedd y wefan yn fwy fel y cylchgrawn oherwydd mae'n well gen i y byd celfyddydol.'

Trafodwyd pa wefannau newyddion eraill a ddefnyddient, ac fe gafwyd bod rhai yn darllen gwefan y BBC, y *Guardian* a'r *Independent*, ac yn clicio arnynt pan fydd stori sydd wedi cael ei phostio gan rywun arall ar Trydar. Dywedodd un cyfranogwr: 'Dwi'n defnyddio ap newyddion y BBC. Byddwn i'n defnyddio un Golwg360 pe bai un yn bodoli.' Cwynodd un cyfranogwr am nad oedd 'yn hoffi darllen Golwg360 ar fy ffôn oherwydd mae o'n anodd i'w ddarllen.'

Gofynnwyd a oedd y rhan fwyaf o'r grŵp yn ymwybodol o wefan BBC Cymru Fyw. O blith y rhai a oedd cafwyd yr ymatebion hyn: 'Rydw i'n hoffi gweld fod gwefan Cymru Fyw yn hybu blogiau Cymraeg ac yn dod â gwefannau at ei gilydd ond mae'n well gen i Ffrwti.' Nid oedd un cyfranogwr 'yn hoffi Cymru Fyw. Mae o'n rhy ysgafn'.

Roedd un cyfranogwr yn fwy tebygol o gael newyddion o gyfryngau cymdeithasol nag o wefannau yn benodol: 'Os ydw i eisiau newyddion am Gymru wedyn mi wna i ddarllen Twitter a dilyn gohebwyr Cymraeg, yn bennaf y BBC.' Roedd y grŵp yn cytuno ei bod hi'n bwysig cael gymaint o ffynonellau newyddion o Gymru â phosib.

Trafodwyd cylchgrawn cerddoriaeth *Y Selar*. Roedd hanner y grŵp yn darllen y cylchgrawn yn weddol aml ac yn ei fwynhau. Trafodwyd y wefan hefyd: ‘Mae’n edrych fel bod dim ymdrech wedi mynd mewn i’w gwefan nhw,’ meddai un cyfranogwr. Roedd cyfranogwr arall yn ‘falch fod *Y Selar* yn rhoi eu cylchgrawn ar y We’. Roedd un cyfranogwr yn hoffi’r newidiadau diweddar a wnaed i’r wefan, ac yn croesawu cael y storïau newyddion sy’n cael eu postio ar Twitter: ‘Mae nhw’n dda ond mae’r wefan yn edrych mor wael’. Roedd cyfranogwr arall a oedd yn eu dilyn ar Twitter yn ategu’r farn honno: ‘Dwi’n mwynhau eu dilyn nhw ar Twitter ond dydw i ddim yn hoffi eu gwefan nhw.’ Roedd y cytundeb cyffredinol ymhlith y grŵp bod angen newid dyluniad y wefan.

Roedd ymwybyddiaeth y grŵp o’r hyn sy’n bodoli yn Gymraeg yn golygu ei bod yn bosibl cael sgwrs oedd yn llifo o un pwnc i’r llall yn fwy naturiol na chyda’r grwpiau eraill. Roedd gan gyfranogwyr y grŵp hwn farn bendant ar lawer o’r pynciau, a hynny o bosibl oherwydd eu profiad a’u haeddfedrwydd. Er hynny, nid oedd eu barn am beth oedd yn bodoli yn barod yn Gymraeg ddim o hyd yn gadarnhaol ac felly roedd yn werth clywed eu barn er mwyn gwybod sut y gellir gwella rhai o’r pethau hyn.

## **7. Prif ganfyddiadau**

Y prif reswm dros lunio'r traethawd hwn oedd er mwyn cynorthwyo Cyngor Llyfrau Cymru i ganfod patrymau darllen fel rhan o arferion amser hamdden Cymry ifainc o fewn oedran penodol, sef rhwng 15 a 25 oed. Mae'r arfer o ddefnyddio technoleg i ddarllen wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'r chwyldro digidol wedi newid arferion darllen pobl ifanc.

7.1 Mae'r diffyg ymwybyddiaeth o lyfrau Cymraeg wedi bod yn amlwg drwy'r ymatebion i'r holiadur ac yn y grwpiau ffocws. Roedd diffyg ymwybyddiaeth ymysg yr ymatebwyr iau am lawer o bethau yn ymwneud â'r diwylliant Cymraeg yn dangos bod tipyn o her gan gwmnïau cyhoeddi Cymraeg, yn enwedig wrth farchnata eu deunydd. Mae'r diwylliant Cymraeg yn cystadlu gyda pheiriant marchnata enfawr y diwylliant Saesneg Prydeinig ac Americanaidd er mwyn denu sylw pobl ifainc.

7.2 Mae angen rhoi dewis yr un mor eang yn Gymraeg ag sydd i'w gael yn Saesneg o ran dull o siopa. Os mai prynu mewn siop lyfrau yw dyhead pobl, yna mae angen mynediad iddynt ar draws Cymru yn ogystal â chael cyfundrefn farchnata a gwerthu ar y We megis Amazon.

7.3 Yn ôl yr ymchwil hon mae agweddau digon cadarnhaol ymhlith y grŵp oedran tuag at y gwefannau Cymraeg a Chymreig, ond bod angen i'w delwedd fod o'r un safon neu'n uwch na'r rhai cyffelyb yn Saesneg.

7.4 Os oes gwerth yn y farchnad ddarllen 15-25 oed yn y dyfodol, yna mae angen dolen gyswllt gyson trwy greu swydd benodol o bosibl, neu trwy greu strategaeth farchnata glir sy'n cynnwys cyfathrebu ac ymchwil gyson i weld beth yw anghenion y

grŵp targed hwn. Mae marchnata'r deunydd sydd ar gael yn wybodus a deallus yn hanfodol.

7.5 Mae anghenion a dyheadau pobl ifanc yn gallu newid yn gyflym. Mae'n amlwg o'r ymchwil hon nad oes digon o arbenigedd ar gael yn y diwydiant llyfrau yng Nghymru ar gyfer defnyddio'r cyfryngau electronig i gyfathrebu, marchnata a gwerthu llyfrau. Byddai bod â chlust gyson i'r hyn sydd yn apelio yn ffordd o fodloni'r angen. Nid yw bodolaeth gwefan Gwales yn cyfrannu fawr ddim at ymwybyddiaeth y bobl yn yr oedran hwn o'r llyfrau sydd ar gael yn y Gymraeg.

7.6 Mae'r ganran uchel o ymatebwyr sydd wedi dweud eu bod yn defnyddio Facebook a Twitter yn dangos pwysigrwydd gwneud y cyfryngau cymdeithasol yn rhan ganolog o waith marchnata a chyhoeddusrwydd unrhyw gwmni cyhoeddi neu gylchgrawn.

7.7 Mae'r Cyngor Llyfrau yn annog y cyhoeddwr i feddwl am syniadau gwreiddiol wrth hyrwyddo llyfrau. Enghraifft o hyn oedd ariannu fideo ar YouTube er mwyn hysbysebu llyfr newydd, sef *Miwsig Moss Morgan* gan Siân Lewis.<sup>29</sup> Er bod hyn yn syniad da, nid yw'r fideo ar ei ben ei hun ddim yn ddigonol. Mae angen ceisio cyrraedd y gynulleidfa a fydd am wyllo'r fideo, megis ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol a thrwy gylchlythyr e-bost, nid dim ond trwy anfon datganiad i'r wasg yn unig. Byddai'n ddiddorol gweld a yw defnyddio YouTube yn fwy llwyddiannus os oes llyfr penodol ar gyfer pobl ifanc arno – o gofio fod pobl ifanc yn fwy tebygol o

---

<sup>29</sup> Gweler <[https://www.youtube.com/watch?v=qRrbw9\\_xX3Q](https://www.youtube.com/watch?v=qRrbw9_xX3Q)>.

wyllo YouTube na phobl hŷn – ac a fydd yn arwain at gynyddu gwerthiant. Mae angen ystyried a yw'r dulliau marchnata a'r peth sydd yn cael ei farchnata yn cyfateb oherwydd nad yw fideo ar YouTube ddim yn mynd i fod yn briodol ar gyfer marchnata pob llyfr.

7.8 Mae tystiolaeth yr ymchwil hon yn dangos bod pobl ifanc yn siopa am ddeunydd darllen yn bennaf ar y We ac nid mewn siopau llyfrau. Er mwyn cynyddu proffil ac argaeledd y farchnad Gymraeg byddai cynnwys y farchnad lyfrau Gymraeg fel is-adran cwmni megis Amazon yn ehangu mynediad i'r farchnad yn sylweddol. Mae'n rhaid cydnabod bod problemau cydweithio gyda chwmni masnachol fel Amazon, ond mae'r cysyniad o roi'r farchnad lyfrau Cymraeg ar yr un gwastad â'r farchnad Saesneg yn un mae'r ymchwil yma wedi adnabod fel ffordd effeithiol o gynyddu darllen i'r oedran 15 i 25 oed. Mae 58% o'r ymatebwyr wedi dweud eu bod yn prynu deunydd darllen o Amazon sydd yn golygu bod gan y bobl hyn i gyd gyfrif Amazon yn barod. Mae hyn yn golygu y medrant archebu llyfr oddi ar y wefan yn hawdd.

7.9 Er bod y canfyddiadau o bosibl yn groes i ddyheadau siopau llyfrau Cymraeg, sydd â rôl bwysig iawn i'w chwarae yn niwydiant llyfrau Cymru yn gyffredinol, nid yw pobl ifanc yn gweld y siop lyfrau draddodiadol fel y dull mwyaf hylaw o brynu llyfrau. Mae'r ymchwil yn dangos bod angen mynd at y cwsmeriaid yn lle gobeithio y daw'r cwsmeriaid i'r siopau. Bydd yn rhaid i'r farchnad lyfrau yng Nghymru gymryd sylw o'r ymchwil hon wrth gynllunio eu strategaethau marchanta yn y dyfodol oherwydd os yw patrwm prynu'r gynulleidfa Gymraeg ifanc yn parhau fel hyn, yna gall fod dyfodol ansicr i siopau os nad ydynt yn gallu ymateb i ofynion y farchnad. Mae'n bosibl mai Grŵp 3 fydd y genhedlaeth olaf i wneud defnydd llawn o siopau



llyfrau traddodiadol ac mai gwefannau fydd y modd o brynu nwyddau fel llyfrau i bobl Grŵp 2 ac 1 erbyn iddynt hwy gyrraedd 25 oed.

7.10 Mae rhoi e-lyfrau ar wefan Amazon yn bwysig oherwydd ni allwch lawrlwytho e-lyfrau ar gyfer y Kindle, sef yr e-ddarllenydd mwyaf poblogaidd,<sup>30</sup> o unrhyw wefan arall, yn cynnwys Gwales. Dylai cael strategaeth bendant ar gyfer sut i werthu a marchnata e-lyfrau Cymraeg fod yn flaenoriaeth gan nad yw'n ymddangos ei bod wedi derbyn sylw neilltuol hyd yma gan y diwydiant cyhoeddi Cymraeg. Mae'n ddigon posibl mai'r rheswm am hynny, wrth gwrs, yw am mai peth diweddar yw'r e-lyfr Cymraeg, ond gan fod y teitlau Cymraeg wedi cynyddu ar Gwales o 120 i 184 mewn blwyddyn, mae'n amlwg fod mwy a mwy o e-lyfrau yn cael eu darparu.<sup>31</sup> Roedd nifer mawr o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod bod e-lyfrau Cymraeg yn bodoli o gwbl. Gallai'r awgrym yn adroddiad 'E-gyhoeddi yn y Gymraeg' am e-gyhoeddi hen lyfrau sydd allan o hawlfraint am ddim fod yn syniad da ar gyfer sbarduno diddordeb mewn e-lyfrau Cymraeg.

7.11 Wrth drafod y bylchau yn y farchnad gyda phobl ifanc, beth a ddaeth yn amlwg oedd fod prinder o lyfrau sydd â ffocws ar gymeriadau ifanc a fyddai'n gallu apelio at gynulleidfa benodol ehangach, yn ogystal â phrinder cyfresi.

7.12 Mae ffonau symudol yn declyn darllen y mae pobl yn ei gario yn eu poced ym mhob man, felly mae angen gwneud deunydd darllen fel gwefannau ac aps yn hawdd

---

<sup>30</sup> Gweler <<http://www.forbes.com/sites/jeremygreenfield/2013/10/30/kindle-most-popular-device-for-ebooks-beating-out-ipad-tablets-on-the-rise>> (cyrchwyd ym mis Medi 2014).

<sup>31</sup> Gweler *Adroddiad Blynyddol Cyngor Llyfrau Cymru, 2013-2014*, t. 40.

i'w darllen ar y ffôn. Dylai unrhyw un sydd am i'w deunydd gael ei ddarllen ar-lein ystyried hyn hefyd pan fyddai nhw'n dylunio eu gwefan.

7.13 Gan fod angen hybu'r gwefannau Cymraeg sy'n bodoli yn barod, byddai'n syniad annog pobl ifanc i greu eu blogiau eu hunain am eu hoff ddiddordebau ar y gwefannau hynny (e.e. 'Y Selar'). Byddai hynny'n helpu i greu diwylliant o gwmpas y gwefannau sydd yn cael grantiau gan y Cyngor Llyfrau.

7.14 Mae'r ymchwil yn dangos bod cryn her yn wynebu'r Cyngor Llyfrau a'r cyhoeddwr wrth ymateb i'r newidiadau yn sgil y cynnydd yn y defnydd o gyfryngau digidol. Nid oes modd gwybod a yw tueddiadau fel e-lyfrau, siopa ar-lein a darllen ar ffonau symudol yn rhai a fydd yn boblogaidd yn yr hirdymor. Serch hynny, mae yna genedlaethau cynyddol o bobl sydd yn gwneud defnydd helaeth o'r cyfryngau digidol a bydd cwrdd â'u hanghenion nhw yn y dyfodol yn dasg y bydd angen ei hwynebu gan y diwydiant cyhoeddi Cymraeg. Yn 2013-2014, £25,600 a wariodd y Cyngor Llyfrau ar ddeunydd electronig, sydd yn 1.5% o gyfanswm gwariant yr Adran Grantiau Llyfrau Cymraeg.<sup>32</sup> Mae'n debygol iawn y bydd rhaid buddsoddi mwy o arian ar ddeunydd electronig yn ystod y blynyddoedd nesaf.

## 8. Atodiad

### **Ymchwil i le darllen ymysg arferion hamdden siaradwyr Cymraeg 15-25 oed**

---

<sup>32</sup> Gweler *Adroddiad Blynyddol Cyngor Llyfrau Cymru, 2013-2014*, t. 19.

Disgrifiad o'r ymchwil:

Mae'r prosiect ymchwil hwn yn ceisio darganfod pa mor bwysig yw darllen fel rhan o arferion hamdden pobl ifanc rhwng 15 a 25 oed, o gymharu â gweithgareddau hamdden eraill.

Mae'r prosiect eisiau canfod i ba raddau y mae'r chwyldro digidol wedi newid arferion darllen pobl ifanc yn yr ystod oedran hwn. Mae eisiau canfod pa effaith y mae hynny'n debyg o'i gael ar y math o lyfrau a gyhoeddir yn y Gymraeg, pa fath o gyfryngau newyddion y dylid canolbwyntio arnynt yn y dyfodol, a chanfod y cydbwysedd cywir rhwng cyfryngau print a digidol.

Ystyrir y math o ddeunydd a ddarllenir, yn ddeunydd print ac electronig, ac ystyrir hefyd faint o ddeunydd Cymraeg a faint o ddeunydd Saesneg a ddarllenir mewn amrywiol gyfryngau. Bydd yr ymchwil hefyd yn cynnwys darganfod patrymau darllen pobl ifanc ar y We drwy holi am y math o safleoedd a ddefnyddir ganddynt yn rheolaidd, megis safleoedd newyddion a rhwydweithiau cymdeithasol a blogiau.

### **Cyfrinachedd**

Mae unrhyw wybodaeth rydych chi'n rhannu gyda ni yn gyfrinachol a dim ond fel rhan o'r prosiect ymchwil hwn y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio. Ni fyddwn yn rhannu eich atebion gydag unrhyw drydydd parti.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

Nia Thomas,  
Adran y Gymraeg  
Prifysgol Aberystwyth  
Adeilad Hugh Owen  
Penglais  
Aberystwyth.  
SY23 3DY

e-bost: [nit15@aber.ac.uk](mailto:nit15@aber.ac.uk)



**Adran A**

1. Ai Cymraeg yw eich

Iaith gyntaf?

Ail iaith?

Dysgwr?

2. Oedran \_\_\_\_\_

3. Rhyw:  Benyw  Gwryw

4. Ym mha dref/bentref ydych chi'n byw? \_\_\_\_\_

5. (a.) Ydych chi'n... (Gellwch dicio () mwy nag un blwch.)

ddisgybl ysgol? Blwyddyn \_\_\_\_\_

myfyriwr coleg/prifysgol? Blwyddyn \_\_\_\_\_

gweithio'n llawn amser/rhan amser? Sector \_\_\_\_\_

di-waith? \_\_\_\_\_

Arall? \_\_\_\_\_

5. (b.) Os ydych yn ddisgybl neu'n fyfyrwr, pa bwnc/bynciau ydych chi'n astudio?

---

*trosodd*

## **Adran B**

6. Pa fath o ddeunydd ydych chi'n ei ddarllen yn eich amser **hamdden**? (heb gyfri gwaith cwrs ysgol/prifysgol). (Gellwch dicio () mwy nag un blwch).

Llyfrau

- Cylchgronau/papurau newydd
- Y We
- E-lyfrau/e-gylchgronau

7. (a.) Ydych chi'n fwy tebygol o ddarllen deunydd **printiedig** yn Gymraeg neu yn Saesneg yn eich amser hamdden? Mae deunydd printiedig yn golygu unrhyw beth sydd ar gael ar bapur (e.e. llyfrau, cylchgronau, papurau newydd)

- Cymraeg
- Saesneg
- Cymraeg a Saesneg yn gyfartal

7. (b.) Os gwnaethoch chi dicio 'Cymraeg' yn unig yn rhif 7. (a.) esboniwch pam.

---

---

7. (c.) Os gwnaethoch chi dicio 'Saesneg' yn unig yn rhif 7. (a.) esboniwch pam.

---

---

8. Rhowch dair enghraifft o unrhyw ddeunydd darllen **printiedig** Cymraeg rydych chi'n ei ddarllen yn eich amser hamdden.

---

---

9. Rhowch dair enghraifft o ddeunydd darllen **printiedig** Saesneg rydych chi'n ei ddarllen yn eich amser hamdden.

---

---

10. Pa fath o lyfrau ydych chi'n mwynhau eu darllen yn eich amser hamdden?  
(Gellwch dicio (☑) mwy nag un blwch).

- Ffeithiol
- Ffuglen

*trosodd*

- Chwaraeon
- Rhamant
- Doniol
- Ffuglen Wyddonol (Sci-Fi)
- Trosedd
- Arall \_\_\_\_\_

11. (a.) A ydych yn teimlo fod yna ddigon o ddeunydd Cymraeg **printiedig** sydd o ddiddordeb i chi?

- Ydw
- Nac ydw

11. (b.) Os 'Nac Ydw' yw eich ateb rhowch enghreifftiau o'r math o ddeunydd darllen y byddech yn dymuno ei weld yn Gymraeg.

---

---

12. (a.) Beth sy'n eich gwneud chi'n fwy tebygol o ddarllen llyfr? (Gellwch dicio  mwy nag un blwch).

- Cynllun y clawr
- Cynnwys y broliant
- Y teitl
- Pwy yw'r awdur
- Pwnc y llyfr

12. (b.) Beth yw'r prif ddylanwad pan fyddwch yn dewis llyfr? (Ticiwch  un bocs yn unig)

- Cynllun y clawr
- Cynnwys y broliant
- Y teitl
- Pwy yw'r awdur
- Pwnc y llyfr

*trosodd*

13. Beth oedd y llyfr diwethaf i chi ei ddarllen? (Cymraeg neu Saesneg)

---

14. Faint o amser ydych chi'n ei dreulio yn darllen deunydd printiedig yn eich amser hamdden **bob wythnos** ar gyfartaledd?

- Hyd at 2 awr
- Rhwng 2 a 7 awr
- Mwy na 7 awr

15. Ydych chi'n darllen y rhain yn Gymraeg **bob mis**?

- Y Cymro*
- Golwg*
- Papur Bro
- Dim un o'r uchod.

16. Beth yw eich barn ar y deunydd printiedig yma yn Gymraeg? Sut gellir ei wella?

Llyfrau \_\_\_\_\_  
Cylchgronau/papur newydd \_\_\_\_\_

*trosodd*

### **Adran C**

17. (a.) A ydych yn darllen e-lyfrau o leiaf bob mis? (Gellwch dicio (☑) mwy nag un blwch).

- Ydw yn Gymraeg
- Ydw yn Saesneg
- Nac Ydw

17. (b.) Os 'Ydw yn Gymraeg' yw eich ateb, ble byddwch chi'n prynu e-lyfrau Cymraeg? (Gellwch dicio () mwy nag un blwch).

- Ar Gwales
- Ar Amazon
- Ar siop iTunes
- Ar siop y cyhoeddwr
- Arall \_\_\_\_\_

18. Sut y byddwch chi'n darllen deunydd electronig yn gyffredinol? (Gellwch dicio () mwy nag un blwch). Mae deunydd electronig yn golygu unrhyw beth sydd ddim yn brintiedig (e.e. gwefannau, e-lyfrau, apps)

- Ar ffôn symudol
- Ar liniadur neu gyfrifiadur
- Ar dabled (e.e. iPad)
- Ar e-ddarllenydd (e.e. Kindle)
- Arall \_\_\_\_\_

19 (a.) Ydych chi'n defnyddio'r canlynol bob mis? (Gellwch dicio () mwy nag un blwch).

- Twitter?
- Facebook?
- Golwg 360?
- Newyddion BBC (Cymraeg)?
- BBC News (Saesneg)?
- Dim un o'r uchod.

19 (b.) Os gwnaethoch ateb 'Twitter' neu 'Facebook' ydych chi'n eu defnyddio nhw yn Gymraeg?

- Ydw
- Nac ydw

*trosodd*

19 (c.) Os gwnaethoch ateb Golwg 360, ydych chi'n ei ddarllen

- Ar liniadur?
- Ar app ar ffôn symudol/tabled?



20. (a.) Ydych chi'n rhannu, argymhell neu ail-drydar (*retweet*) dolenni (*links*) ar Twitter neu Facebook â phobl eraill? (e.e. erthygl newyddion, blogiau, BuzzFeed) (Gellwch dicio (☑) mwy nag un blwch).

- Ydw, dolenni Cymraeg
- Ydw, dolenni Saesneg
- Nac ydw

20. (b.) Ydych chi'n clicio ar neu yn darllen dolenni (*links*) sydd wedi cael eu postio gan eraill ar Twitter a Facebook? (e.e. erthygl newyddion, blogiau, BuzzFeed) (Gellwch dicio (☑) mwy nag un blwch).

- Ydw, dolenni Cymraeg
- Ydw, dolenni Saesneg
- Nac ydw

21. Pa wefannau o ddiddordeb cyffredinol neu bersonol yr ydych chi'n eu defnyddio bob wythnos?

---

---

22. Pa fath o ddeunydd Cymraeg yr hoffech ei weld ar y We nad yw ar gael ar y funud?

---

---

23. Faint ydych chi'n ei wario ar **ddeunydd darllen** printiedig/electronig bob mis ar gyfartaledd?

- £0
- Hyd at £10
- Rhwng £10 a £20
- Rhwng £20 a £40
- Mwy na £40

*trosodd*

24. (a.) Sut ydych chi'n cael gafael ar ddeunydd darllen? (Gellwch dicio (☑) mwy nag un blwch).

- Benthg o'r llyfrgell
- Darllen am ddim ar y We

- Prynu o siop lyfrau Cymraeg
- Prynu o siop lyfrau Saesneg
- Prynu o siop arall
- Prynu ar Amazon
- Prynu ar Gwales
- Prynu ar wefannau eraill \_\_\_\_\_

24. (b.) Pa mor aml ydych chi'n cael gafael ar ddeunydd darllen o'r llyfydd canlynol? (Opsiynau: bob wythnos, bob mis, bob 3 mis, bob 6 mis, llai aml na phob 6 mis, byth)

Benthyg o'r llyfrgell \_\_\_\_\_  
 Darllen am ddim ar y We \_\_\_\_\_  
 Prynu o siop llyfrau Cymraeg \_\_\_\_\_  
 Prynu o siop llyfrau Saesneg \_\_\_\_\_  
 Prynu o siop arall \_\_\_\_\_  
 Prynu ar Amazon \_\_\_\_\_  
 Prynu ar Gwales \_\_\_\_\_  
 Prynu ar wefannau eraill \_\_\_\_\_

25. Ar gyfartaledd, faint o amser ydych chi'n ei dreulio yn darllen deunydd electronig yn eich amser hamdden **bob wythnos**?

- Hyd at 2 awr
- Rhwng 2 a 7 awr
- Mwy na 7 awr

26. Beth yw eich barn ar y deunydd electronig yma yn Gymraeg? Sut gellir ei wella?

Y We \_\_\_\_\_  
 E-lyfrau \_\_\_\_\_

27. Pa weithgareddau ydych chi'n eu gwneud yn eich amser hamdden? (Gellwch dicio (☑) mwy nag un blwch).

- Chwaraeon
- Cerddoriaeth
- Gwylio ffilmiau/teledu

*trosodd*

- Chwarae gemau
- Celf a chrefft
- Pori ar y We
- Arall \_\_\_\_\_

**DIWEDD**

## 9. Llyfryddiaeth

Amazon, *Get started with Amazon local*, cyrchwyd Tachwedd 2014:

<<http://services.amazon.co.uk/services/amazon-local/why-amazon-local.html>.>

BBC , 'NME sales dip below 20,000 copies', *BBC News* 14 Chwefror 2014,

cyrchwyd ar Chwefror 2014:

<<http://www.bbc.co.uk/news/entertainment-arts-26180038>.>

BBC, 'Sut i hybu gwerthiant llyfrau Cymraeg?', *BBC Cymru Fyw*, Awst 6 2014,

cyrchwyd Awst 2014: <<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/28678592>.>

BBC Cymru Fyw, cyrchwyd Medi 2014 <<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw>.>

Cwmni Beaufort, 'Adroddiad Omnibws Siaradwyr Cymraeg 2012', 2012, cyrchwyd

Tachwedd 2014:

<<http://www.cllc.org.uk/ni-us/cyhoeddiadau-publications/ymchwil-research>.>

Cyngor Llyfrau Cymru (2014) *Adroddiad Blynyddol 2013-14*.

Farrington, Joshua, 'Bowker: self-published e-books 12% of sales', *The Bookseller*, 7

Mehefin 2013, cyrchwyd Awst 2014:

<<http://www.thebookseller.com/news/bowker-self-published-e-books-12-sales>.>

Golwg, 'Cyngor Llyfrau Cymru – toriad ychwanegol o £100,000', *golwg360*, Medi 8 2014, cyrchwyd Medi 2014: <<http://www.golwg360.com/newyddion/arian-a-busnes/160749-cyngor-llyfrau-cymru-toriad-ychwanegol-o-100000>>

Golwg, 'Sefyllfa'r diwydiant llyfrau yng Nghymru 'yn ddifrifol'', *Golwg360*, 5 Awst 2014: <<http://www.golwg360.com/celfyddydau/eisteddfodau/156951-sefyllfa-r-diwydiant-llyfrau-yng-nghymru-yn-ddifrifol> .>

Greenfield, Jeremy, 'E-Retailers Now Accounting for Nearly Half of Book Purchases by Volume, Overtake Physical Retail' *Digital Book World*, 18 Mawrth 2013, cyrchwyd Awst 2014: <<http://www.digitalbookworld.com/2013/e-retailers-now-accounting-for-nearly-half-of-book-purchases-by-volume/> .>

Greenfield, Jeremy 'Kindle most popular device for e-books, beating out iPads; tablets on the rise' *Forbes*, 30 Hydref 2013, cyrchwyd Hydref 2014: <<http://www.forbes.com/sites/jeremygreenfield/2013/10/30/kindle-most-popular-device-for-ebooks-beating-out-ipad-tablets-on-the-rise/>>

Hebbard, D B, 'New UK study finds young people less enthusiastic about eBooks, many still do not own a tablet', *Talking New Media*, 14 Mawrth 2014, cyrchwyd Mehefin 2014: <<http://www.talkingnewmedia.com/2014/03/14/new-uk-study-finds-young-people-less-enthusiastic-about-ebooks-many-still-dont-own-a-tablet/>>

Heno, rhaglen deledu, Tinopolis, S4C, 17 Chwefror 2014.

Higher Education Statistics Agency, cyrchwyd Medi 2014:

<<https://www.hesa.ac.uk/stats>.>

Luft, Oliver, 'Magazine ABCs: Double digits declines dent music titles', *Mediaweek*,  
16 Chwefror 2012, cyrchwyd Chwefror 2014:

<<http://www.mediaweek.co.uk/article/1117595/magazine-abcs-double-digit-declines-dent-music-titles>.>

Perez, Ashley, 'What City Should You Actually Live In?' *BuzzFeed* 16 Jan 2014,  
cyrchwyd Awst 2014:

<<http://www.buzzfeed.com/ashleyperez/what-city-should-you-actually-live-in>.>

Prys Delyth, Gruffudd Prys, Dewi Bryn Jones, David Chan, 'E-gyhoeddi yn y  
Gymraeg', Bangor 2011, cyrchwyd Tachwedd 2014:

<<http://www.cllc.org.uk/ni-us/cyhoeddiadau-publications/ymchwil-research>.>

Rowan David, 'How BuzzFeed mastered social sharing to become a media giant for a  
new era' *wired.co.uk*', 2 Ionawr 2014, cyrchwyd Awst 2014:

<<http://www.wired.co.uk/magazine/archive/2014/02/features/buzzfeed>.>

Stryker Sam, '27 Christmas Lessons We Learned From "The Office"', *BuzzFeed*, 21  
Rhagfyr 2014, cyrchwyd 21 Rhagfyr 2014:

<<http://www.buzzfeed.com/samstryker/christmas-lessons-from-dunder-mifflin>.>

*Y Selar*, cyrchwyd Mai 2014: <<http://www.y-selar.com/>.>

Ward, Gerrard, '16-24s say ebooks are too expensive' *Voxburner*, 19 November 2013, cyrchwyd Medi 2014: <<http://www.voxburner.com/publications/329-16-24s-say-ebooks-are-too-expensive>.>

Woods, Mike, 'Prynu a Darllen Llyfrau Cymraeg', Hydref 2007, cyrchwyd Medi 2014: <<http://www.cllc.org.uk/ni-us/cyhoeddiadau-publications/ymchwil-research>.>